# BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023

Trosolwg o Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | 2 |
| Strwythur y Bwrdd | 3 |
| (a) Aelodaeth | 6 |
| (b) Camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau | 8 |
| (c) I ba raddau rydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol | 10 |
| (d) Sut rydym wedi cydweithio â chyrff eraill sy’n rhan o weithgareddau sy’n ymwneud ag amcanion y Bwrdd | 19 |
| (e) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys o dan A.137(1) a pha un a gydymffurfiwyd â hwy | 23 |
| (f) Ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn | 24 |
| (g) I ba raddau y mae asiantaethau wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau | 32 |
| (h) Asesiad o sut mae’r Byrddau yn defnyddio eu hadnoddau | 44 |
| (i) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae’r Byrddau Diogelu wedi arfer eu swyddogaethau | 46 |
| (j) Pryd a sut y mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd | 52 |
| (k) Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion | 56 |
| (l) Gwybodaeth neu wersi y mae’r Byrddau wedi’u lledaenu a’r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd | 57 |
| (m) Sut mae’r Byrddau Diogelu wedi gweithredu cyngor gan Lywodraeth Cymru a’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol | 68 |
| Rhestr Termau | 69 |

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar y cyd ar gyfer CYSUR a CWMPAS, sef Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

Eleni fe ymadawodd cadeirydd Bwrdd CWMPAS, Jonathan Griffiths. Hoffem ddiolch i Jonathan am ei arweinyddiaeth a'i ymrwymiad i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a chydnabod y cyfraniad y mae wedi'i wneud i ddatblygu ei waith a'i gyfeiriad strategol yn ystod y chwe blynedd flaenorol.

Mae buddsoddiad ac amser sylweddol wedi'u neilltuo trwy gydol y flwyddyn i gefnogi datblygiad proses newydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), gan gynnwys datblygu'r canllawiau statudol drafft a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cael comisiwn gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol i gefnogi a chyd-fynd â gweithredu'r canllawiau newydd.

Mae ein llwyddiannau arbennig eleni'n cynnwys datblygu pecynnau hyfforddiant diogelu amlasiantaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu hyfforddiant chwilfrydedd proffesiynol a'r adnoddau cysylltiedig, yn ogystal â datblygu animeiddiad hyfforddiant diogelu a grëwyd gan ein Bwrdd Iau. Mae'r casgliadau hyfforddiant ac adnoddau hyn yn helpu i gefnogi ymarferwyr yn eu gwaith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, ac yn rhoi negeseuon pwerus i ymarferwyr am y ffordd orau o gyfathrebu gyda phlant a gwrando arnynt. Mae ein hymrwymiad parhaus i gyflawni yn erbyn ein hagenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi symud ymlaen yn gyflym eleni. Mae ein strategaeth pedair blynedd newydd a'n cynllun cyflawni i gyd-fynd â hi wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi, a hwythau wedi'u goleuo'n uniongyrchol gan oroeswyr sydd â phrofiad personol o gam-drin domestig yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae datblygu atebion creadigol i rai o'r heriau sylweddol o ran y gweithlu y mae gweithlu'r sector gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i waith y Byrddau eleni, o fewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol. Cynhaliwyd adolygiad o'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled y rhanbarth, a byddwn yn cyflawni camau gweithredu yn y flwyddyn sydd i ddod i wella trefniadau recriwtio a chadw staff yn lleol ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol parhaus.

Mae ymrwymiad ein partneriaid amlasiantaeth i gydweithio i wneud gwahaniaeth ac i wella bywydau plant ac oedolion sy'n wynebu risg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn gryfach nag erioed. Hoffem ddiolch i aelodau'r Byrddau a'r is-grwpiau am eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad parhaus a'r cynnydd a wnaed yn 2022-23, ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar hyn yn y flwyddyn sydd i ddod.



**Michael Gray (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro



**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Gâr

# Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Caiff amcanion Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eu nodi isod.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Plant** yw:

- **amddiffyn** plant o fewn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, a
- **atal** plant o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Oedolion** yw:

- **amddiffyn** oedolion o fewn ei ardal –

1. y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
2. sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a

- **atal** yr oedolion hynny o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

## Canllawiau ynghylch swyddogaethau Byrddau Diogelu

Mae'r ffocws ar gyfer Byrddau Diogelu yn ddeublyg, sef **amddiffyn** plant ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac **atal** plant ac oedolion rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau Byrddau Diogelu pan fyddant yn ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol, ac yn adolygu eu perfformiad.

Mae cadw plant ac oedolion a allai fod ag anghenion am ofal a chymorth yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rhai y maent yn byw gyda nhw ac sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle gallant fyw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu wneud gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, hamdden a gweithgareddau eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn bennaf o fewn y teulu neu gyda gofalwyr ac o fewn y gymuned ehangach.


Mae gan lawer o sefydliadau gyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu'n uniongyrchol iddynt, trwy'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd a gofalwyr, neu drwy eu gwaith i ddatblygu a chryfhau cymunedau.



# Strwythur y Bwrdd

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys, gan weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth mewn lleoliad aml-asiantaeth. Nod y Byrddau yw codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd a rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol sy'n darparu ystod o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Gwasanaethir Canolbarth a Gorllewin Cymru gan ddau Chwaer-fwrdd Diogelu:

- **CWMPAS [Collaborative Working & Maintaining Partnership in Adult Safeguarding]:** Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, **a;**
- **CYSUR [Child & Youth Safeguarding, Unifying the Region]:** Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.




## Byrddau Gweithredol:

Mae Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn gweithio gyda'i gilydd fel Bwrdd rhanbarthol trosfwaol i fonitro a gwella gweithgarwch diogelu rhanbarthol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Byrddau Gweithredol yn cynnwys uwch reolwyr o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler Adran A). Nod y Byrddau Gweithredol yw rhoi arweinyddiaeth ac arweiniad i'w holl asiantaethau cyfansoddol trwy gyflawni cyfres o flaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgarwch ac ymarfer diogelu. Mae'r ddau Fwrdd Gweithredol yn cefnogi, yn arwain ac yn cymryd cyngor gan yr is-grwpiau rhanbarthol.



*Cyfarfod Bwrdd Gweithredol Hybrid a gynhaliwyd eleni yn y cnawd a thrwy Microsoft Teams*

## Grwpiau Gweithredol Lleol:

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLl). Mae diben, aelodaeth a strwythur y GGLl hyn yn adlewyrchu diben y Byrddau Gweithredol. Fodd bynnag, prif amcan GGLl yw monitro a dadansoddi arferion diogelu yn lleol, yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae aelodaeth yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sy'n cadeirio'r grwpiau, ac uwch reolwyr a rheolwyr canol o asiantaethau statudol lleol, gan gynnwys asiantaethau Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae GGLl yn ceisio gwella ymarfer yn lleol trwy drafod gweithgarwch diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, rhannu a dadansoddi data ar berfformiad a chwblhau archwiliadau o ymarfer i oleuo gwelliannau mewn ymarfer ac adnabod risg. Mae GGLl yn ceisio rhannu a chydnabod enghreifftiau o arfer diogelu da; hefyd, byddant yn herio asiantaethau'n broffesiynol ac yn eu dwyn i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu yn syrthio islaw'r safonau disgwyliedig.

## Is-grŵp Adolygu Ymarfer Pob Oed:

Mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Pob Oed yn ystyried atgyfeiriadau gan asiantaethau lle mae plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg naill ai wedi marw neu wedi dioddef amhariad sylweddol ar ei iechyd a'i ddatblygiad o ganlyniad i gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso. Mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn meini prawf diffiniedig o fewn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' a 'Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' ac yn cyflwyno argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol perthnasol i nodi a oes canlyniadau dysgu a adnabuwyd, ac a ddylid cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion (APR) neu Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) i ddysgu gwersi. Cynhelir Adolygiadau Ymarfer gan grŵp amlasiantaeth o weithwyr proffesiynol sy'n dadansoddi gwybodaeth gyda'i gilydd ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Cyhoeddir yr adroddiad wedyn fel Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion ar wefan y Byrddau.

## Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPF) Rhanbarthol

Cynhelir dysgu amlasiantaeth trwy Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPF) o achosion a adnabuwyd nad ydynt wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion llawn, cryno neu estynedig. Cafodd y Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth (MAPF) Rhanbarthol ei gau yn 2022 ac mae bellach wedi'i ymgorffori yn yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Pob Oed, er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau. Mae'r cyfrifoldeb am reoli a goruchwylio Fforymau Proffesiynol Aml-Asiantaeth, yn ogystal â chael atgyfeiriadau ar gyfer Fforymau Proffesiynol Aml-Asiantaeth newydd, bellach yn nwylo'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer, er bod cyswllt â Grwpiau Gweithredu Lleol rhanbarthol yn dal i fodoli.

## Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:

Mae'r Is-Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd ac mewn cydweithrediad â'r Byrddau Gweithredol. Mae'r Grŵp yn ceisio rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol trwy ddatblygu polisi a gweithdrefn diogelu rhanbarthol. Bellach mae gan y Byrddau nifer sylweddol o bolisïau pob oed amlasiantaeth i gynorthwyo ymarferwyr yn eu hymarfer, a gyhoeddir ar wefan y Byrddau unwaith y cânt eu cadarnhau.

## Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:

Mae'r Is-Grŵp Hyfforddiant yn gweithredu ar y cyd ac mewn cydweithrediad â'r Byrddau Gweithredol. Mae'n ceisio cefnogi ac arwain gwaith darparu hyfforddiant a gwersi diogelu ledled ardaloedd y pedwar Awdurdod Lleol a sefydliadau'r asiantaethau partner. Mae'r Is-Grŵp Hyfforddiant yn cydweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi partneriaid i hybu ansawdd a chysondeb hyfforddiant a darpariaeth ym maes diogelu. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu arbenigol, pwrpasol ledled y rhanbarth ac mae'n cydweithio'n agos gydag is-grwpiau eraill, megis yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer, er mwyn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu a adnabuwyd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion yn cael eu lledaenu i staff, a bod unrhyw hyfforddiant arbenigol a adnabuwyd yn cael ei gomisiynu.

Mae fforymau a grwpiau rhanbarthol pwrpasol eraill yn cefnogi ac yn cyd-fynd yn agos â chynllun strategol blynyddol a blaenoriaethau'r Bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys Grwpiau Arweinwyr Diogelu Oedolion a Phlant amlasiantaeth rhanbarthol, a grŵp rhanbarthol ar gyfer Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant.

## Grwpiau Strategol a Chyflenwi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):

Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio ar holl ddinasyddion y rhanbarth ac yn ymgorffori pob math o drais yn erbyn menywod, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), masnachu pobl, trais a chamfanteisio rhywiol, a cham-drin domestig. Mae'r Grŵp Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gydweithrediad amlasiantaeth sy'n llywio gofynion y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys gweithredu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-27 (gweler adran B). Mae'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cefnogi'r Grŵp Strategol ar ddatblygu a gweithredu blaenoriaethau rhanbarthol, yn ogystal â chynnal cysylltiadau allweddol â darparwyr arbenigol.

## CADW: Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau

Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Tros Gynnal Plant (TGP) i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau rhanbarthol. Mae'r grŵp yn parhau i gynghori'r Byrddau Gweithredol ar faterion diogelu a materion o safbwynt pobl ifanc trwy gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori.

Mae Grŵp CADW yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael eu hategu gan dri grŵp diogelu iau lleol a phartneriaeth ieuenctid, sy'n cyd-fynd yn agos â'u priod Grwpiau Gweithredol Lleol.



*Aelodau CADW, y Bwrdd Diogelu Iau*

# (a) Aelodaeth

## CWMPAS
### (Y Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)

**Michael Gray (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai,
Cyngor Sir Penfro

**Jayne Butler (Is-Gadeirydd)**
Ditectif Uwch-arolygydd,
Heddlu Dyfed Powys

**Jake Morgan**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,
Cyngor Sir Gâr

**Audrey Somerton-Edwards**
Cyfarwyddwr Interim y Gwasanaethau
Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion

**Nina Davies**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys

**Sharon Daniel**
Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Avril Bracey**
Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Cyngor Sir Gâr

**Donna Pritchard**
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol
Corfforaethol, Porth Gofal,
Cyngor Sir Ceredigion

**Mel Laidler**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Cyngor Sir Penfro

**Sharon Frewin**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol,
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

## CYSUR
### (Y Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)

**Jake Morgan (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,
Cyngor Sir Gâr

**Is-Gadeirydd CYSUR**
Yn wag ar adeg cyhoeddi

**Sharon Daniel**
Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Michael Gray**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai,
Cyngor Sir Penfro

**Audrey Somerton-Edwards**
Cyfarwyddwr Interim y Gwasanaethau
Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion

**Nina Davies**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyngor Sir Powys

**Jayne Butler**
Ditectif Uwch-arolygydd,
Heddlu Dyfed Powys

**Jan Coles**
Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Cyngor Sir Gâr

**Donna Pritchard**
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol,
Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion

**Darren Mutter**
Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Cyngor Sir Penfro

**Sharon Powell**
Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol,
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol),
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jayne Wheeler-Sexton**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Claire Roche**
Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Debbie Pachu**
Nyrs Ddynodedig, Y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**Chris Harrison**
Cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid Comisiynu



**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodo),
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jayne Wheeler-Sexton**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Claire Roche**
Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Debbie Pachu**
Nyrs Ddynodedig, Y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**Steve Davis**
Cynrychiolydd rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid

**Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol**
Aelodaeth yn cylchdroi o Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys

**Dr Ingrid Prosser**
Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Dr Damitha Ratnasinghe**
Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Julie Breckon**
Rheolwr Diogelu Strategol Rhanbarthol

**Theresa Welch**
Swyddog Datblygu Busnes

**Rebecca Reynolds**
Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer

**Stuart Hicks**
Cydlynydd Busnes

# (b) Camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau

## Adolygiad a Dadansoddiad a Gomisiynwyd o Ffactorau Risg ar gyfer y Gweithlu Diogelu Plant ac Oedolion

Mae ymgynghorwyr annibynnol wedi cael comisiwn gan y Byrddau eleni i adolygu ac adnabod ffactorau risg ar gyfer y gweithlu mewn timau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ledled y rhanbarth. Comisiynwyd y gwaith ar y cyd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru fel ymdrech gydweithredol. Roedd hyn yn dilyn gwaith blaenorol a wnaed yn 2018 gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Ar y cyfan, mae negeseuon a chanfyddiadau allweddol yr adolygiad yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol cydnabyddedig mewn perthynas â'r heriau sylweddol y mae pob gwasanaeth gofal cymdeithasol a gwasanaethau ehangach y sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth recriwtio a chadw staff i mewn i swyddi allweddol. Mae hyn yn dal i fod yn un o'r ffactorau risg mwyaf i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel ar gyfer y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Er bod y darlun yn amrywiol ar draws ein rhanbarth, mae'r themâu a adnabuwyd yn cynnwys lefelau uchel o swyddi gwag ac anawsterau recriwtio i swyddi diogelu allweddol. Yn gyffredinol, nodir bod cyfradd y swyddi gwag yn uwch yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru nag yn 2018. Mae heriau'n parhau i fodoli wrth geisio sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol ar bob cam yn eu gyrfaoedd, yn enwedig mewn rolau sy'n cynnwys sgiliau arbenigol, ochr yn ochr â galw cynyddol am wasanaethau a lefelau llwyth gwaith cynyddol.

Gwnaed nifer o argymhellion, a bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle y bo'n briodol yn y flwyddyn sydd i ddod. Maent yn cynnwys strategaethau i leihau'r oedi yn y broses recriwtio trwy ddatblygu prosesau Adnoddau Dynol pwrpasol, cytundebau lleol a chyfyngiadau ynghylch defnyddio gweithwyr asiantaeth, ac ystyried cytuno ar gyflog sy'n gyson yn rhanbarthol. Mae gwaith gyda Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu dull Cymru gyfan o ymdrin â heriau'r gweithlu'n parhau ochr yn ochr â chamau gweithredu rhanbarthol pwrpasol wedi'u targedu.

## Adolygiad a Gomisiynwyd o'r Ymateb Amlasiantaeth i Bandemig COVID-19

Eleni bwriwyd ymlaen â ffrwd waith allweddol ar gyfer y rhanbarth a'i bartneriaid amlasiantaeth, sef adolygu sut yr ymatebom ni ar y cyd i bandemig COVID-19 a pha wersi y gallwn eu dysgu pe baem yn ein cael ein hunain mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol.

**"Adborth a rannwyd yn ystod Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar yr ymateb rhanbarthol i COVID-19:**

*Mae'r rhanbarth wedi dod yn agosach, gan wthio anghysondeb o'r neilltu*

*Troi argyfwng yn gyfle"*

Mewn cydweithrediad â Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru, mae ymgynghorydd annibynnol wedi cael comisiwn i gynnal adolygiad o'r ymateb amlasiantaeth, gyda ffocws ar bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a nyrsio. Mae'r adolygiad wedi ymdrechu i geisio sicrwydd bod anghenion grwpiau agored i niwed wedi cael eu diwallu'n briodol, adnabod unrhyw welliannau a/neu anghenion heb eu diwallu, a chofnodi safbwynt a phrofiad y rhai sy'n darparu gwasanaethau hanfodol o fewn y garfan a nodwyd. Mae casgliadau ac argymhellion y gwaith hwn yn y broses o gael eu dadansoddi a byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Blynyddol Strategol y Byrddau ar gyfer 2023-24.

## Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-2027

Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015, cyhoeddodd rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Bywydau Diogel, Perthnasoedd Iachach ym mis Tachwedd 2018. Goruchwylir y Strategaeth Ranbarthol a'r cynlluniau cyflawni blynyddol gan yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a'r Bwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n atebol i'r Byrddau Gweithredol Diogelu Rhanbarthol. Mae'r strategaeth hon wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn y flwyddyn flaenorol fe gwblhawyd nifer o brosiectau a oedd yn gysylltiedig â'n blaenoriaethau rhanbarthol. Mae ymarfer cynhwysfawr i adolygu a diweddaru'r strategaeth bresennol, ochr yn ochr â chwblhau cynllun cyflawni pedair blynedd newydd, wedi cael ei gwblhau eleni.

Mae Adeiladu Bywydau Hapusach, Iachach, Cryfach, Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2027 wedi cael ei chwblhau, ei chymeradwyo a'i chyhoeddi. Mae hon yn adlewyrchu profiadau rhanddeiliaid allweddol ochr yn ochr â lleisiau goroeswyr a phrofiadau unigol o ran y gwasanaethau y maent wedi'u cael, a sut y gellir gwella'r rhain. Fe'i datblygwyd o fewn y cyd-destun cenedlaethol a Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru 2022-2026.

Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn dal i fod yn hynod gyffredin yn y rhanbarth hwn, ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd cynnydd o 40% mewn adroddiadau mewn perthynas â thrais a cham-drin rhywiol, yn ogystal â chynnydd o 22% yn nifer y digwyddiadau cam-drin domestig y rhoddwyd gwybod amdanynt. Er gwaethaf y cyd-destun pryderus hwn, mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn hynod falch o'r cynnydd a wnaed yn y 5 mlynedd flaenorol ac o ddatblygiad gwasanaethau ar gyfer goroeswyr a chyflawnwyr cam-drin domestig. O'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o ddatblygu'r strategaeth newydd, nododd 84% welliant mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth, nododd 89% welliant mewn ymwybyddiaeth gymunedol ynghylch trais a cham-drin, a dywedodd 76% fod y strategaeth wedi arwain at fwy o bwyslais ar ymyrryd yn gynnar ac atal.

Bydd y strategaeth newydd yn adeiladu ar lwyddiannau presennol ac yn parhau i gryfhau gwasanaethau ataliol a chymorth i blant a phobl ifanc, goroeswyr a chyflawnwyr, a bydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod yn ein cymunedau.

# (c) I ba raddau yr ydym wedi gweithredu ein cynllun blynyddol strategol

Mae tystiolaeth glir drwy bob adran yn yr adroddiad hwn i ddangos i ba raddau yr ydym wedi gweithredu ein cynllun blynyddol strategol ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, gellir crynhoi'r cynnydd, cyflawniadau a chanlyniadau yn erbyn ein ffrydiau gwaith craidd fel a ganlyn.

## 1. Ymgysylltu a Chyfathrebu Effeithiol:


Gwella Ymgysylltu ac Ymgynghori â Phlant, Oedolion sy'n Wynebu Risg, Grwpiau Agored i Niwed, Gweithwyr Proffesiynol a Phartneriaethau.

**Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:**

Llwyddodd CADW, ein Bwrdd Iau, i gwblhau eu hanimeiddiad hyfforddiant eleni i Llwyddodd CADW, ein Bwrdd Iau, i gwblhau eu hanimeiddiad hyfforddiant eleni i gefnogi hyfforddiant diogelu amlasiantaeth i ymarferwyr a rheolwyr. Cynhaliwyd lansiad llwyddiannus ym mis Tachwedd 2022 gyda chymorth Comisiynydd Plant Cymru fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu.

Mae gwaith pellach wedi cael ei wneud i adolygu ffocws y Bwrdd Iau, ei gylch gorchwyl a'r modd y caiff ei frandio. Bydd rhagor o wybodaeth ac argymhellion mewn perthynas â'r gwaith hwn yn cael eu darparu i'r Byrddau Gweithredol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r grŵp yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol rhanbarthol yn rheolaidd i hysbysu'r Byrddau ynghylch pa waith diogelu a materion ddylai fod yn flaenoriaeth i blant a phobl ifanc ledled ein rhanbarth.

Mae cyfathrebu gydag ymarferwyr a'r cyhoedd wedi cael ei gryfhau ymhellach eleni gyda gweithredu cylchlythyr chwarterol y Bwrdd. Mae gwaith i ddatblygu a phoblogi gwefan y Byrddau hefyd wedi cael ei wneud, a thudalennau gwe newydd wedi cael eu creu. Hefyd, mae'r adrannau hyfforddiant a'r hyb adnoddau wedi cael eu poblogi ymhellach gydag amrywiaeth o offer ac adnoddau defnyddiol i gefnogi ymarferwyr yn eu gwaith. Mae rhestr ddosbarthu gynhwysfawr ar gyfer cylchlythyr y Bwrdd wedi cael ei sefydlu ar draws y rhanbarth gyda phartneriaid amlasiantaeth i sicrhau cyrhaeddiad mor eang â phosibl i ymarferwyr rheng-flaen. Mae ymgyrchoedd wedi'u targedu yn y cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu hyrwyddo trwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo



ymgyrchoedd a negeseuon am faterion diogelu allweddol gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (e.e. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a phobl hŷn, argaeledd rhaglenni cyflawnwr a thrais rhywiol), Edrychwch yn Fanylach (sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio ar blant), cwsg diogel, iechyd meddwl, a Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel.

## Pa ganlyniadau rydym wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud:

- Mae hyfforddiant amlasiantaeth ar draws y rhanbarth yn cael ei gryfhau a'i oleuo'n uniongyrchol gan leisiau a phrofiadau personol plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.
- Mae llais plant a phobl ifanc yn dal i oleuo a dylanwadu ar waith y Byrddau.
- Mae llinellau cyfathrebu uniongyrchol gydag ymarferwyr ar wybodaeth, arfer a negeseuon allweddol ym maes diogelu wedi cael eu cryfhau.



# 2. Dysgu Thematig a Datblygu Arfer Gorau:

Sicrhau Dull Thematig o Ddysgu a Gwerthuso Effaith Barhaus Gwaith y Byrddau dros Amser, gan Alluogi Themâu Allweddol a Adnabuwyd i Oleuo Blaenoriaethau Strategol. Parhau i Ddatblygu a Rhannu Arfer Gorau.

## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

SMae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud eleni i ddatblygu ein gwaith adolygu ymarfer ymhellach, ac mae systemau a phrosesau yn y maes hwn wedi cael eu cryfhau. Mae'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion rhanbarthol wedi cael eu huno yn un fforwm pob oed, ac o ganlyniad, mae pob atgyfeiriad ar gyfer adolygiadau a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth bellach yn cael eu hystyried ar y cyd gan un grŵp amlasiantaeth. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl defnyddio dull pob oed o ymdrin ag achosion a ystyrir ar gyfer adolygiad, yn ogystal ag unrhyw wersi ar gyfer ymarfer a all gael eu hadnabod. Mae hyn yn cyd-fynd â strwythurau pob oed sydd eisoes ar waith ar gyfer pob un o is-grwpiau eraill y Byrddau ac yn adlewyrchu'r rhain, gan gynnwys yr Is-grwpiau Hyfforddiant a Pholisïau a Gweithdrefnau rhanbarthol a Grwpiau Gweithredol Lleol. Mae profformas a thempledi wedi cael eu diweddaru a'u mireinio i gefnogi'r broses newydd.

Rydym wedi rhoi cymorth a mewnbwn sylweddol i ddatblygiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ledled Cymru. Yn benodol, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn arwain ar ddatblygu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol i roi cymorth i weithredu'r prosiect hwn. Mae adolygiad a diweddariad llawn o Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad y Byrddau Rhanbarthol wedi cael ei gwblhau a'i adolygu, a bydd yn cael ei weithredu ar gyfer coladu a chyflwyno data o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae data a gaiff ei goladu a'i ddadansoddi fel rhan o'r fframwaith hwn bellach yn cyd-fynd â dangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi'u diweddaru.

Mae cryn dipyn o amser a buddsoddiad wedi cael eu neilltuo i gefnogi hyfforddiant diogelu amlasiantaeth eleni. Mae pecyn hyfforddi cyfan i gefnogi chwilfrydedd proffesiynol wedi cael ei ddatblygu a'i weithredu ar draws holl asiantaethau'r Bwrdd. Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn bennaf ar sail pob oed i ymarferwyr gan gael llawer iawn o lwyddiant ac adborth ardderchog. Mae'r pecyn hyfforddi yn cynnwys sesiynau diwrnod cyfan a hanner diwrnod y gellir eu teilwra i'r angen, ac a ategir gan gyfres o adnoddau i ymarferwyr. Yn dilyn cyhoeddi a lansio'r safonau hyfforddiant cenedlaethol yn llwyddiannus y llynedd dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r rhanbarth hwn wedi parhau i roi cymorth sylweddol i gam nesaf y prosiect cenedlaethol hwn, yn ogystal â datblygu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol. Bydd digwyddiad cenedlaethol i lansio a chyhoeddi ail gam y gwaith hwn a fydd yn cyd-fynd â'r safonau cenedlaethol yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.



Mae proses adolygu, monitro ac olrhain lawn wedi cael ei datblygu a'i chyflwyno i gefnogi datblygiad parhaus polisïau a gweithdrefnau diogelu amlasiantaeth. Mae nifer o bolisïau yr oedd yn bryd iddynt gael eu hadolygu wedi cael eu diweddaru eleni, ac mae systemau cadarn ar waith i gefnogi gwell goruchwyliaeth ac adolygiad o bolisïau presennol.

Mae gwaith wedi parhau i gefnogi gwaith atal hunanladdiad y rhanbarth, ac mae model ymateb cyflym ar ffurf cynllun peilot 12 mis wedi cael ei gyflwyno eleni lle amheuir mai hunanladdiad yw achos marwolaeth. Mae hyn yn sicrhau bod cymorth amlasiantaeth amserol a chadarn yn cael ei roi a'i fod ar gael i frodyr a chwiorydd, cymunedau a chyfoedion yr effeithiwyd arnynt gan farwolaeth plentyn neu oedolyn lle ceir amheuaeth o hunanladdiad.

## Pa ganlyniadau rydym wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud:

- Mae themâu ymarfer a gwersi a adnabuwyd fel rhan o'r broses adolygu ymarfer cyfunol bellach yn cael eu cofnodi'n ehangach ac yn fwy cyson ar sail pob oed.
- Mae dealltwriaeth y Byrddau am arferion diogelu ar gyfer plant ac oedolion a'u goruchwyliaeth arnynt yn fwy cadarn, ac wedi'u cryfhau o ganlyniad i well data a dadansoddi.
- Mae gallu ymarferwyr i fod yn fwy chwilfrydig yn broffesiynol wrth gynnal asesiadau ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael ei wella trwy ddatblygiad proffesiynol, cymorth a hyfforddiant gwell.
- Mae unigolion sy'n wynebu mwy o risg o hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael mwy o gymorth a hynny'n gynharach, gan hwyluso mwy o achosion o atal hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant ac oedolion yn y rhanbarth.



# 3. Cryfhau'r Gweithlu a Rheoli Risg:

Datblygu a Gweithredu Mentrau Strategol, a fydd yn Ei Gwneud yn Bosibl Cadw Mwy o Weithwyr yn y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Recriwtio Mwy o Weithwyr Iddo, ac Adnabod ac Ymateb i Risgiau Sylweddol Eraill ym Maes Diogelu.

## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

Eleni buom yn cydweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i gynnal adolygiad o'r gweithlu o ran y ffactorau risg, themâu a thueddiadau cyfredol a brofir wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol i blant ac oedolion. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi ystyried effaith pandemig COVID-19 ar arferion gweithio, ac wedi ystyried pa addasiadau a newidiadau cymesur y mae angen eu gwneud wrth edrych tua'r dyfodol i gefnogi gweithlu iach.

Eleni cynhaliodd  rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Seremoni Gwobrau Diogelu gyntaf ym mis Mai 2022. Cefnogwyd y digwyddiad gan y Dirprwy Weinidog Gofal Cymdeithasol, Julie Morgan. Cafodd ymarferwyr ar draws yr holl asiantaethau eu gwobrwyo am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u safonau ymarfer rhagorol trwy gydol pandemig COVID-19.

## Pa ganlyniadau rydym wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud:

- Mae ffactorau risg sy'n gysylltiedig â diffygion a heriau o ran y gweithlu ar draws gofal cymdeithasol yn cael eu deall yn well, gan ei gwneud yn bosibl gweithredu i liniaru risgiau a adnabuwyd.
- Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn fwy am yr effaith gadarnhaol y maent wedi'i chael ar fywydau plant a phobl ifanc ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.



# 4. Arweinyddiaeth, Gwelededd a Her:

Parhau i Ddarparu Arweinyddiaeth Weladwy a Dylanwadu ar yr Agenda Genedlaethol mewn perthynas â Blaenoriaethau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Galluogi Her Adeiladol ac Ymgysylltiad Gweithredol gan bob Asiantaeth yn ein Partneriaeth.

## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

Mae ymarfer llawn i adolygu a diweddaru'r strategaeth ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol bresennol wedi cael ei gwblhau eleni, ochr yn ochr ag asesiad anghenion llawn. Mae cynllun gweithredu ategol wedi cael ei gwblhau a bydd yn cael ei roi ar waith yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae pecyn sefydlu aelodau newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau'r Byrddau sy'n amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae cofrestr risgiau wedi cael ei datblygu a'i chymeradwyo hefyd, a fydd yn ategu'r fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad wedi'i ddiweddaru y cyfeirir ato uchod.

Mae'r Byrddau wedi parhau i hyrwyddo a dylanwadu ar ddatblygiad deddfwriaeth, polisi, a chanllawiau allweddol cenedlaethol mewn modd rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a dileu amddiffyniad cosb resymol trwy Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu gwaith cenedlaethol er mwyn mynd ati'n well i ddiogelu rhai o'n grwpiau sydd fwyaf agored i niwed ac yn wynebu'r risg fwyaf. Fel a amlinellwyd o dan adrannau D ac I, mae cydweithio wedi digwydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr angen am well gwybodaeth i rieni ac ymarferwyr am gwsg diogel a ffactorau uwch sy'n gysylltiedig â chyd-gysgu. Y canlyniad yw bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cytuno i gynnal adolygiad cyflym cenedlaethol i adnabod unrhyw wersi amlwg y mae angen eu dysgu neu newidiadau amlwg y mae angen eu gwneud i ymarfer.

## Pa ganlyniadau rydym wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud:

- Bydd goroeswyr Cam-drin Domestig yn cael gwell ymyrraeth gan ymarferwyr o ganlyniad i amcanion rhanbarthol a strategaeth ranbarthol eglur i'w cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau a rhoi cymorth amlasiantaeth.
- Bydd ansawdd ac allbwn cyfarfodydd Byrddau Gweithredol rhanbarthol yn cael eu gwella a bydd aelodau newydd o'r Byrddau wedi'u harfogi'n well i gyflawni eu dyletswyddau o ganlyniad i ganllawiau clir.
- Mae deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu cenedlaethol wedi'u cryfhau trwy ein dylanwad a'n cyfraniad uniongyrchol at ffrydiau gwaith a mentrau cenedlaethol i amddiffyn grwpiau agored i niwed a grwpiau sy'n wynebu risg yn well.

# 5. Ymateb i COVID-19 ac Adferiad Ohono:

Monitro Effaith Pandemig COVID-19, Ymateb i unrhyw Faterion sy'n Codi a Chydlynu Dull Amlasiantaeth Rhanbarthol o Gael Adferiad.


## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

Er bod brig pandemig COVID-19 wedi mynd heibio, mae effaith barhaus hyn ar ddarparu gwasanaethau yn cael ei monitro gan y Byrddau trwy strwythurau a phrosesau sy'n ei gwneud yn bosibl amlygu materion ar sail eithriad lle bo hynny'n briodol. Amlygwyd prosesau rhyddhau diogel o'r ysbyty, er enghraifft, fel maes sy'n peri pryder eleni. O ganlyniad, fe wnaeth yr Arweinwyr Diogelu Oedolion rhanbarthol ddarn pwrpasol o waith wedi'i dargedu i roi sicrwydd bod ymarfer yn y maes hwn yn ddiogel ac yn gadarn.

Mae adolygiad llawn o effaith COVID-19 ar draws y bartneriaeth amlasiantaeth a'r ffordd yr ymatebon ni i'n grwpiau mwyaf agored i niwed wedi cael ei gynnal eleni. Mae'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd i gefnogi arfer gorau yn y broses o gael eu gwerthuso a byddant yn goleuo cynllun gwaith y flwyddyn nesaf.

## Pa ganlyniadau rydym wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud:

- Bydd cynlluniau gwaith y byrddau'n seiliedig ar wybodaeth well yn y dyfodol, a bydd ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n well trwy'r heriau ymarfer cymhleth sy'n codi o ganlyniad i'r pandemig a'i effaith barhaol



# Beth y mae angen i ni ei wneud o hyd?

- Ystyried sut y gallwn ymgysylltu'n well ag oedolion sy'n wynebu risg a sut y gallant oleuo a chyfrannu at y Byrddau a'u gwaith.
- Adolygu a diweddaru ein strategaeth hyfforddiant ranbarthol i ategu a chyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddiant Amlasiantaeth dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru yn dilyn ei gyhoeddi.
- Cwblhau gwaith i ddatblygu polisi a chanllawiau rhanbarthol i gefnogi Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Rheoli Honiadau yn erbyn Ymarferwyr a'r rhai sydd mewn Swydd o Ymddiriedaeth.

> **Geiriau a ddefnyddir gan aelodau'r Bwrdd i ddisgrifio cryfderau ein Byrddau:**
>
> *Cyfathrebu, dathlu llwyddiant a rhannu arloesedd*
>
> *Ymddiriedaeth a pherthnasoedd gwaith effeithiol*

- Gweithredu ein Cofrestr Risg Ranbarthol i roi cymorth i adnabod risgiau amlasiantaeth a'u huwchgyfeirio at y Byrddau Diogelu.
- Cyflawni unrhyw gamau gweithredu ac argymhellion o'r adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â heriau o ran y gweithlu a'n hymateb i ddefnyddwyr gwasanaethau agored i niwed a risg-uchel yn ystod pandemig COVID-19



**GYDA PHWY RYDYM WEDI CYDWEITHIO Â NHW AC WEDI CYMRYD RHAN MEWN CAMAU GWEITHREDU I GYFLAWNI EIN HAMCANION**

- Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill
- Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Gofal Cymdei-thasol Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymdeithasau Mudiadau Gwirfoddol
- Llywodraeth Cymru

# (d) Sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag amcanion y Byrddau

## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r Byrddau wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac i wneud cyfraniad sylweddol at y prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael comisiwn gan Lywodraeth Cymru eleni i arwain a datblygu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol i gefnogi'r model adolygu newydd unwaith y caiff ei weithredu, gan gynnwys Adolygiadau o Laddiadau Domestig, Adolygiadau o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol ac Adolygiadau o Laddiadau oherwydd Iechyd Meddwl, ochr yn ochr ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i fynychu cyfarfodydd briffio rheolaidd gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod gwaith y Byrddau. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i roi cymorth i weithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, ac rydym yn parhau i fod yn aelodau o'r Grŵp Gweithredu Strategol ar ran Byrddau Diogelu eraill yng Nghymru. Er bod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol bellach wedi dod i ben yn ffurfiol, mae'r Byrddau wedi parhau i weithredu egwyddorion y cynllun hwn trwy barhau i hyrwyddo a rhannu adnoddau gydag ymarferwyr rheng-flaen. Cafodd digwyddiadau ymgynghori cenedlaethol eu hwyluso gan Plant yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023, i adolygu effeithiolrwydd y cynllun hwn. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cael eu cefnogi a'u mynychu gan reolwyr amlasiantaeth ledled y rhanbarth.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r Byrddau wedi parhau i weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant, ac wedi sefydlu cyswllt a threfn gyfathrebu gyda Chomisiynydd Plant Cymru sydd newydd ei phenodi. Mae sesiynau briffio a chyfarfodydd wedi digwydd fel sy'n briodol drwy gydol y flwyddyn gyda Chadeirydd CYSUR, Jake Morgan, ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac sydd o bwysigrwydd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys materion ymarfer a oedd yn gysylltiedig ag Adolygiadau Ymarfer Plant a gyhoeddwyd ac a oedd yn mynd rhagddynt, a chyfathrebu parhaus mewn perthynas â chanllawiau statudol ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (a gyhoeddwyd wedyn ym mis Mai 2023). Cefnogodd y Comisiynydd Plant ddigwyddiad blaenllaw'r Byrddau yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu i hyrwyddo adnodd hyfforddiant diogelu ac animeiddiad a ddatblygwyd gan grŵp iau y Bwrdd, CADW. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Comisiynydd Plant newydd trwy weddill ei chyfnod yn y swydd ar faterion sydd o ddiddordeb a phwysigrwydd i'r ddwy ochr i gefnogi diogelu plant yn ein cymunedau.

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Mae perthynas gadarnhaol bresennol y Byrddau â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cael ei chryfhau eleni trwy wahoddiad i fod yn aelod o'r Byrddau Gweithredol Diogelu Rhanbarthol. Bydd cyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol ym mis Ionawr 2023 a'r bwriad i gynnwys cynnal Adolygiadau o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol, yn ogystal ag Adolygiadau o Laddiadau Domestig, yn y canllawiau SUSR sydd ar ddod yn cefnogi ac yn galluogi perthynas weithio agosach yn y meysydd hyn sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

## Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill ledled Cymru

Mae Rheolwyr yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn cwrdd yn rheolaidd i rannu arfer da, trafod meysydd datblygu ac adnabod tueddiadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ym maes diogelu. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithio ar y cyd â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru i gynllunio Wythnos Genedlaethol Diogelu, gan ddatblygu themâu rhanbarthol i ddosbarthu'r gwaith a rhannu arfer da.  Eleni bu ffocws penodol ar gydweithio gyda'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol eraill ar ddatblygu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol i gefnogi datblygiad a gweithrediad SUSR. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gael eu cynrychioli ar Fwrdd Prosiect Cenedlaethol Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac maent yn chwarae rhan weithredol iawn yn y broses o'u gweithredu a'u datblygu'n barhaus.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd
Delivering Change Together

Mae cysylltiadau a threfniadau cyfathrebu cryf a sefydlwyd gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru wedi cael eu cyfnerthu eleni. Cynhaliwyd dau brosiect cydweithredol llwyddiannus eleni mewn meysydd sydd o ddiddordeb a phwysigrwydd i'r ddwy ochr mewn perthynas â'r gweithlu a gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19.

Bydd y gwaith hwn yn darparu gwybodaeth trwy themâu a thueddiadau mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, yn ogystal â mewnwelediad i wersi sydd ar gael o'r ymateb rhanbarthol i COVID-19 a'r gwersi a ddysgwyd.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Yn dilyn lansiad llwyddiannus y Safonau Diogelu i roi cymorth i ddarparu hyfforddiant diogelu amlasiantaeth ledled Cymru y llynedd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu, mae gwaith wedi parhau eleni i gefnogi datblygiad fframwaith hyfforddiant cenedlaethol i gyd-fynd â'r safonau a'u hategu. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i gael eu cynrychioli ar y grŵp datblygu cenedlaethol sy'n arwain ar y gwaith hwn, ac maent yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y prosiect hwn.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae'r Byrddau wedi ymateb i AGC a darparu gwybodaeth ar ei chyfer pan ofynnwyd iddynt, a thuag at ddiwedd y flwyddyn, fe wnaethant gefnogi ceisiadau am wybodaeth a chymorth mewn perthynas â'r adolygiad cyflym o arfer diogelu plant ledled Cymru sydd ar ddod.

Mae'r Byrddau wedi cefnogi a darparu gwybodaeth mewn perthynas ag arolygiadau parhaus lle bo hynny'n briodol, a chynigir slot dynodedig i AGC fel mater o drefn yn holl gyfarfodydd y Byrddau Gweithredol rhanbarthol. Mae dadansoddi a thrafod wedi parhau i ddigwydd mewn fforymau amrywiol gyda AGC a Llywodraeth Cymru ynghylch yr argyfwng recriwtio a chadw ar draws gweithlu'r sector gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cydnabyddir bod cynnydd yn cael ei wneud, gyda chytundeb ar lefel genedlaethol mewn rhai meysydd; fodd bynnag, mae'r heriau presennol o fewn y sector yn parhau ac mae angen gwaith pellach wedi'i dargedu i sicrhau, cadw ac amddiffyn gweithlu medrus a chymwys yn y tymor hir.

## Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)

Yn dilyn cyhoeddi'r Ymchwiliad Annibynnol llawn i Gam-drin Plant yn Rhywiol (ICCSA) yn gynharach eleni, mae Bwrdd CYSUR wedi rhannu'r adroddiad trwy hyrwyddo gwybodaeth berthnasol ar wefan y Byrddau a lledaenu bwletinau i bartneriaid rhanbarthol, yn ogystal â hyrwyddo digwyddiadau lledaenu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Byrddau'n disgwyl am gyfathrebiad pellach gan Lywodraeth Cymru a byddant yn croesawu'r cyfathrebiad hwnnw ynglŷn â sut y bydd canlyniadau'r ymchwiliad hwn, ochr yn ochr â'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol mewn perthynas â Cham-drin Plant yn Rhywiol, yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gynnal cysylltiadau cryf â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarth. Eleni, mae deialog a gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar y prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), ac mae trafodaethau adeiladol yn parhau i gael eu cynnal ynghylch sut y bydd model yn y rhanbarth yn y dyfodol i gefnogi'r SUSR yn edrych.

Mae cyfathrebu cymesur yn digwydd ac yn cael ei gyfleu i amryw fforymau'r Byrddau mewn perthynas ag Adolygiadau o Laddiadau Domestig ac unrhyw wersi perthnasol y mae angen eu lledaenu.

# Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol




Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i fwynhau perthynas adeiladol â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB), ac mae aelodau'n mynychu cyfarfodydd y Byrddau Gweithredol Rhanbarthol ac yn cyfrannu atynt yn rheolaidd. Mae trafodaethau a deialog gyda Llywodraeth Cymru a'r NISB yn parhau i ddigwydd yn rheolaidd drwy Gyfarfodydd Rheolwyr Byrddau, yn ogystal â chyfarfodydd atodol gyda Chadeiryddion Byrddau.


Mae'r Byrddau wedi parhau i gefnogi'r adolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu amlasiantaeth sy'n cael eu harwain ar hyn o bryd gan yr NISB, trwy fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau amrywiol a gynhelir gan yr ymchwilydd Michelle McManus o Brifysgol John Moores Lerpwl. Mae ffocws eleni wedi bod yn benodol ar ddatblygu fframwaith perfformiad cenedlaethol i gefnogi ymarfer a gweithgarwch diogelu amlasiantaeth, y mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi chwarae rhan lawn a gweithredol mewn perthynas â hwy.

# Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru eleni ar nifer o brosiectau uchelgeisiol parhaus i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed a'r rhai sy'n wynebu mwy o risg yn well.

Cyfrannodd Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac aelodau eraill o'r Bwrdd yn uniongyrchol at adolygu a diweddaru canllawiau cenedlaethol PRUDiC a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Mae gwaith wedi digwydd i ddadlau o blaid gwell gwybodaeth a negeseuon i rieni mewn perthynas â chwsg diogel, oherwydd nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â PRUDiC yn y rhanbarth a ledled Cymru. Bydd adolygiad cyflym cenedlaethol yn cael ei gynnal yn y flwyddyn sydd i ddod mewn perthynas â hyn dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae cytundeb mewn egwyddor wedi'i wneud yn rhwng Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi datblygiad canllaw ymarfer i gyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru mewn perthynas â salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill. Fodd bynnag, mae bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn dibynnu ar gyngor pellach y mae ei angen gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n bwriadu symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.



# (e) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys o dan adr 137(1) a pha un a gydymffurfiwyd â hwy

Er mwyn galluogi neu gynorthwyo'r Byrddau i gyflawni eu swyddogaethau, mae Adran 137 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i Fyrddau Diogelu ofyn i berson neu gorff cymwys ddarparu gwybodaeth benodol.

Ni wnaeth Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru unrhyw geisiadau penodol o'r fath eleni; fodd bynnag, cyflwynwyd cwyn ffurfiol gan Fwrdd CWMPAS i'r Swyddfa Ymchwiliadau i Ymddygiad Barnwrol mewn perthynas â Chrwner a'i ymddygiad. Roedd y mater mewn perthynas â Chwest a oedd yn gysylltiedig ag Adolygiad Ymarfer Oedolion parhaus. Yn dilyn ymchwiliad llawn, cadarnhawyd y gŵyn.



# (f) Ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn

Ar 13 Mai 2022, cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Diogelu cyntaf Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin. Deilliodd y digwyddiad hwn o weithredu ar Gynllun Blynyddol y Byrddau, gan godi o ganlyniad i drafodaeth ynghylch sut y gallwn ni fel Byrddau ddod o hyd i gyfleoedd newydd i ddathlu a rhannu'r arfer rhagorol ar draws asiantaethau yn y bartneriaeth. Roedd awydd cryf i gydnabod a diolch i ymarferwyr diogelu ymroddedig ledled ardal y Bwrdd, y mae eu hymarfer rhagorol wedi gwella profiad plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn fawr yn y rhanbarth, gan gynnwys yn ystod pandemig COVID-19.

Gwahoddwyd enwebiadau am wobrau gan yr holl asiantaethau partner ledled y rhanbarth, ac fe gafwyd cyfanswm o 30 enwebiad. Cafodd y gwobrau eu categoreiddio fel a ganlyn:



- Wedi Dangos Ymrwymiad Eithriadol i Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg yn Ystod Cyfyngiadau COVID
- Wedi Dangos Ymrwymiad Eithriadol i Ddiogelu Plant yn Ystod Cyfyngiadau COVID
- Arloesi a Chreadigrwydd yn Arwain at Well Arferion Diogelu ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Wedi Dangos Ymarfer Neilltuol wrth Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Wedi Dangos Ymarfer Neilltuol wrth Ddiogelu Plant
- Ymarfer Cyfranogol yn Arwain at Gyd-gynhyrchu wrth Ddiogelu Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Gwasanaeth Teyrngar ac Ymroddedig i Ddiogelu Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg

Roedd y Byrddau wrth eu bodd i groesawu Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn Siaradwr Gwadd ar gyfer y Seremoni Wobrwyo. Fe wnaeth Cadeiryddion y Byrddau Jake Morgan a Jonathan Griffiths draddodi'r Anerchiad Agoriadol a chyflwyno gwobrau ochr yn ochr â'r Dirprwy Weinidog. Mae'r Byrddau yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gynnig y gefnogaeth hon i'n digwyddiad, ac am ymuno â ni i ddathlu'r ymarferwyr anhygoel sy'n gweithio i gefnogi plant ac oedolion ledled  y rhanbarth. Fe gynhaliom ni ail Seremoni Wobrwyo Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Mehefin 2023 ac edrychwn ymlaen at rannu llwyddiant y digwyddiad hwn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.



*Seremoni Gwobrau Diogelu Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022, enillwyr*

# Rhai ffotograffau ar y cyd o Seremoni Wobrwyo Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022



*Enillydd Wedi Dangos Ymarfer Neilltuol wrth Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg, Cathy Richards, Cyngor Sir Gâr*



*Enillwyr Wedi Dangos Ymrwymiad Eithriadol i Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg yn Ystod Cyfyngiadau COVID, Ian Randell ac Alison Watkins, Cyngor Sir Penfro a Sir Gâr*



*Enillwyr Arloesi a Chreadigrwydd yn Arwain at Well Arferion Diogelu ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg, Tîm INTACT, Heddlu Dyfed Powys*



*Enillwyr Ymarfer Cyfranogol yn Arwain at Gyd-gynhyrchu wrth Ddiogelu Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg, Dr Sion James a Dr Catherine Burrell, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*



*Enillydd Wedi Dangos Ymrwymiad Eithriadol i Ddiogelu Plant yn Ystod Cyfyngiadau COVID, Kizzie Garner-Hughes, Cyngor Sir Ceredigion*



*Arloesi a Chreadigrwydd yn Arwain at Well Arferion Diogelu ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg, Canmoliaeth Uchel, Tîm Camfanteisio ar Blant Powys, Cyngor Sir Powys*



*Enillydd Wedi Dangos Ymarfer Neilltuol wrth Ddiogelu Plant, Shevaughn Williams, Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro*



*Enillydd Gwasanaeth Teyrngar ac Ymroddedig i Ddiogelu Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg, Raquel Bennett, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys*

# Llongyfarchiadau pawb!

# Lansio a Gweithredu
# **“Yr Hyn i’w Wneud a’r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu”**

Mae’n rhoi pleser i ni rannu canlyniad 18 mis o waith ymroddedig a wnaed gan ein Bwrdd Iau, a arweiniodd at lansio a gweithredu animeiddiad i gefnogi hyfforddiant diogelu, “Yr Hyn i’w Wneud a’r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu”. Deilliodd hyn o Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol ynghylch marwolaeth drasig plentyn, lle’r oedd yn argymell bod angen i lais y plentyn a phrofiad personol plant oleuo hyfforddiant diogelu amlasiantaeth yn uniongyrchol.

Dan arweiniad yr Is-grŵp Hyfforddiant rhanbarthol, rhannwyd brîff gyda’r Bwrdd Iau, CADW, yn eu gwahodd i gynhyrchu darn o waith, y gellid ei ddefnyddio mewn hyfforddiant diogelu rhanbarthol ar draws asiantaethau yn y bartneriaeth.

Gofynnwyd i CADW rannu eu barn am sut y gallai ymarferwyr diogelu eu cefnogi’n fwy effeithiol, ac roeddent yn rhydd i ddewis fformat yr adnodd a gynhyrchwyd ganddynt. Penderfynon nhw ddatblygu animeiddiad, a gwahodd animeiddiwr proffesiynol i ddatblygu cynnyrch wedi’i ddylunio a’i sgriptio’n llawn gan y bobl ifanc. Prynwyd gwasanaeth Curious Ostrich a Space to Create yn dilyn cymeradwyaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Animeiddio’r Bwrdd Iau, fel animeiddiwr ac artist ar gyfer yr animeiddiad. Nesaf, cynhaliodd y bobl ifanc arolygon mewn grwpiau lleol i gael barn bellach gan blant a phobl ifanc y tu hwnt i’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cafodd canfyddiadau’r gwaith hwn, ynghyd â gwersi o Adolygiadau Ymarfer Plant a gwblhawyd lle rhannwyd barn plant i gyfrannu at y broses adolygu, eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel sail i’r neges a fyddai’n cael ei chyflwyno drwy’r cynnyrch gorffenedig.

Fe wnaeth pobl ifanc yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen rannu ac ystyried eu profiadau a’u safbwyntiau eu hunain hefyd o ran sut y cawsant eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol yn y gorffennol. Defnyddiodd y bobl ifanc y ffynonellau hyn i lunio sgript, a dylunio cymeriadau i’w cynnwys yn yr animeiddiad.

Yna cynhaliwyd tri gweithdy rhanbarthol gyda’r animeiddiwr a’r artist, lle gwnaeth y bobl ifanc gynhyrchu deunyddiau a recordio’r animeiddiad trwy ddull stopio a symud ffrâm-wrth-ffrâm. Crëwyd delweddau a sain yn yr animeiddiad gan y bobl ifanc gan ystyried yn ofalus sut i ddarlunio’r neges a oedd yn cael ei chyfleu yn eu sgript.



Ar ôl i'r animeiddiad gael ei gymeradwyo gan y bobl ifanc mewn dangosiad cyntaf yn eu digwyddiad Preswyl yn 2021, cyflwynwyd y cynnyrch gorffenedig i'r Bwrdd Gweithredol.

Cafodd y cynnyrch adborth rhagorol a diolchwyd i'r bobl ifanc am eu gwaith rhyfeddol a'u hymroddiad i'r prosiect.

Roedd lansiad yr animeiddiad a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu 2022 yn gyfle haeddiannol i ddathlu a hyrwyddo'r gwaith gorffenedig. Cynhaliwyd y lansiad ym Mharc y Scarlets, Llanelli ac roedd nifer dda'n bresennol o bob asiantaeth yn y rhanbarth.

Roedd y bobl ifanc yn bresennol ac fe gyflwynon nhw ddangosiad cyntaf yr animeiddiad a fideo atodol a gyfarwyddwyd gan un o bobl ifanc CADW, lle mae'r bobl ifanc yn trafod y profiad o greu'r animeiddiad ac yn esbonio sut a ble y maent yn dymuno i'r cynnyrch gael ei rannu.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, yn bresennol yn y digwyddiad fel Siaradwr Gwadd, a soniodd am ansawdd a gwerth neilltuol yr adnodd, a mynegodd awydd i'w rannu'n ehangach ledled Cymru. Cafodd yr animeiddiad ganmoliaeth anfesuradwy gan bawb a oedd yn bresennol, ac fe wnaethant i gyd fynegi eu bwriad i ymgorffori'r adnodd yn llawn o fewn hyfforddiant eu hasiantaeth.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Bwrdd Iau yn mynychu cyfarfod y Bwrdd Gweithredol, i gael diweddariadau gan asiantaethau ynghylch sut y maent wedi symud y gwaith hwn yn ei flaen a'i hyrwyddo, ac i ystyried y camau nesaf o ran defnyddio'r cynnyrch gwerthfawr hwn.


Hoffai'r Byrddau ddiolch yn ddiffuant i'r bobl ifanc, sy'n parhau i ddangos ymroddiad neilltuol a chyfraniad gwerthfawr i waith diogelu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.



*Lluniau o Ddigwyddiad Lansio "Yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu," Tachwedd 2022.*



# Cwblhau a Chyhoeddi Strategaethau a Pholisïau Rhanbarthol



Cwblhawyd nifer o brosiectau allweddol yn 2022-23, gan arwain at gyhoeddi nifer o bolisïau a llwybrau rhanbarthol allweddol sy'n cynnwys:

- Canllawiau ar Weithio gyda Phobl y mae'n Anodd Ennyn eu Hymgysylltiad
- Protocol Interim ar gyfer Ymateb Cyflym i Ddigwyddiadau Hunanladdiad Tybiedig (Peilot)
- Dogfen Strategaeth Camfanteisio ar Blant
- Natur Agored i Niwed Plant a Phobl Ifanc yn eu Harddegau – Canllawiau ar Ddefnyddio Iaith Briodol
- Lleihau'r Arfer o Droseddoli Plant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Fod Mewn Gofal Heb Fod Angen: Canllawiau Ymarfer

Mae'r holl brosiectau hyn wedi cael eu cwblhau o fewn amryw grwpiau ac is-grwpiau'r Bwrdd. Mae cymorth helaeth wedi cael ei roi gan bob asiantaeth bartner i ddatblygu'r polisïau hyn. Mae'r holl adnoddau'n darparu arweiniad i staff, ac yn ceisio cefnogi a gwella ymarfer diogelu proffesiynol, gan gyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol y Bwrdd.

# Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Gweithredol

Ar 13 Ionawr 2023, daeth y Bwrdd Gweithredol ynghyd i gynnal eu Diwrnod Datblygu Blynyddol yn Llanymddyfri. Mae'r digwyddiad blynyddol sefydlog hwn yn rhoi cyfle hanfodol i gydweithwyr ystyried canlyniadau a llwyddiannau Cynllun Blynyddol y flwyddyn flaenorol ar y cyd, a defnyddio'r gweithgaredd myfyrio hwn i edrych ymlaen at y nodau allweddol i'w cynnwys yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Eleni, dewisodd y Byrddau gytuno ar amcanion strategol newydd i ddisodli'r rhai a oedd wedi bod yn ffocws i'r Cynlluniau Blynyddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Y cymhelliad ar gyfer y newid hwn oedd yr awydd i lunio amcanion newydd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o'r blaenoriaethau allweddol ym maes diogelu mewn byd ar ôl COVID, ac i'w gwneud yn bosibl myfyrio nid yn unig ar y camau penodol i'w cymryd yn y flwyddyn sydd i ddod, ond yn ehangach o ran y meysydd ffocws a blaenoriaeth allweddol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal â myfyrio ar y gwaith a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, cynhaliodd y Byrddau ymarfer "meddwl awyr las" yn ystod y dydd. Roedd ffocws y drafodaeth hon ar "y Bwrdd Diogelu delfrydol" ac fe'i gwnaeth yn bosibl ystyried sut y gallwn fod yn arloesol a chreadigol yn ein gweithgarwch, i ddefnyddio'r partneriaethau cryf o fewn y Byrddau er mwyn ymdrechu tuag at arfer gorau mewn diogelu rhanbarthol.



Roedd canlyniad y drafodaeth hon yn ffrwythlon iawn, gyda dadansoddiad manwl o'r meysydd a fyddai'n elwa fwyaf o weithgarwch a gwaith wedi'i dargedu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Y blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt gan y Byrddau oedd:

1. Datblygu diwylliant o gydweithio ac arloesi ar draws y bartneriaeth, sy'n hyrwyddo gweithlu diogel, medrus a chydnerth.
2. Mesur effaith, dangos tystiolaeth o effaith a deall effaith gwaith y Bwrdd hwn ar ymarfer proffesiynol, a sut y mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.
3. Cynnal dadansoddiad systemig o berfformiad a newid sefydliadol er mwyn deall yn well beth yw eu heffaith ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg.
4. Parhau i ddylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol a chyfrannu ati i gefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu.

## Adborth gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn y Diwrnod Datblygu:

> *Un o'r blaenoriaethau allweddol yw bod y Bwrdd yn hybu cydweithio a goruchwyliaeth ar gyfleoedd recriwtio i ddatblygu gweithlu mwy cydnerth.*

Byddir yn adrodd yn erbyn y gwaith a fydd yn cael ei wneud eleni mewn perthynas â'r blaenoriaethau hyn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. I weld y Cynllun Blynyddol llawn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, cliciwch yma.



## Hwyluso Digwyddiadau Dysgu Adolygiadau Ymarfer a Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPF)

Mae'r Byrddau yn parhau i oruchwylio nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion parhaus, gyda Grwpiau Gweithredol Lleol hefyd yn rheoli Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPFs) parhaus. Eleni, cynhaliwyd pedwar Digwyddiad Dysgu o Adolygiad Ymarfer (dau Adolygiad Ymarfer Plant, un Adolygiad Ymarfer Oedolion, ac un Adolygiad Ymarfer Hybrid), a chynhaliwyd tri Digwyddiad Dysgu MAPF ar draws y pedair ardal yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd Digwyddiadau Dysgu yn y cnawd yn bennaf eleni, gydag un digwyddiad yn cael ei gynnal yn rhithwir oherwydd bod asiantaethau o'r tu allan i'r rhanbarth yn bresennol.

**"Adborth Mynychwyr Digwyddiad Dysgu:**

*Roedd yn amgylchedd gweithio adeiladol, lle roeddem i gyd yn teimlo bod eraill yn gwrando arnom.*

*Fe wnaeth y digwyddiad dysgu gyflawni ei amcanion heb os... Roedd yn anhygoel. Byddaf yn gallu sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed."*

Defnyddiwyd amrywiaeth o fodelau, pob un ag amcan eang i archwilio arfer da a gwersi a oedd yn amlwg yn llinell amser yr adolygiad, gan ganolbwyntio ar brofiadau a safbwyntiau'r gweithwyr proffesiynol a weithiodd gyda'r teulu. Mae diwylliant dysgu cadarnhaol, sefydledig mewn gofod diogel heb fwrw bai'n greiddiol i brosesau adolygu rhanbarthol a dyna'r sylfaen i'r holl Ddigwyddiadau Dysgu a gynhelir yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. O ganlyniad, mae gweithwyr proffesiynol wedi cyfrannu'n helaeth at drafodaethau, ac wedi darparu adborth ardderchog mewn perthynas â'r holl ddigwyddiadau.

## Cydweithio Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gyfer **Wythnos Genedlaethol Diogelu (NSGW22)**

Ym mis Tachwedd 2022, cydlynodd a chefnogodd Uned Fusnes y Byrddau, mewn cydweithrediad â'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol, raglen ranbarthol o ddigwyddiadau i gefnogi Wythnos Genedlaethol Diogelu. Roedd digwyddiadau a chyfathrebiadau yn ystod yr wythnos yn canolbwyntio ar y thema "Symud Ymlaen o Bandemig COVID-19", gan archwilio rhai o'r heriau sy'n bodoli ym maes diogelu mewn byd ar ôl COVID.

Defnyddiwyd dull hybrid ar gyfer yr wythnos, gyda phrif gynhadledd yn y cnawd yn dathlu lansiad animeiddiad CADW, a sawl digwyddiad rhithwir wedi'u hwyluso ledled y rhanbarth, yn canolbwyntio ar themâu fel cam-drin domestig, esgeuluso pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a lles plant ar ôl y pandemig.



# (g) I ba raddau y mae asiantaethau wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau

## Hywel Dda University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn aelod cyson o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef CYSUR a CWMPAS, gan barhau i ddarparu cynrychiolaeth ar lefel Byrddau Gweithredol, yn ogystal ag ar nifer o is-grwpiau'r Byrddau a Grŵp Gweithredol Lleol pob sir. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Nyrsio Corfforaethol Diogelu yn parhau i fod yn Is-gadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR.

Mae Hywel Dda yn parhau i fod yn ymrwymedig i Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth rhanbarthol, fel aelodau panel a thrwy gynnig rolau Cadeirio i adolygiadau rhanbarthol. Maent wedi gweithredu model mewnol o gynnal "digwyddiadau cyn dysgu" i gefnogi a pharatoi staff a nodwyd i fynychu Digwyddiadau Dysgu ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth rhanbarthol.
Mae nifer o gydweithwyr Hywel Dda wedi cyfrannu'n helaeth at waith a fforymau diogelu rhanbarthol a chenedlaethol unwaith eto eleni.

Er enghraifft, cydweithiodd y Nyrs Arweiniol Diogelu Plant wrth ddrafftio'r Canllaw Rhanbarthol ar gyfer Gweithio gyda Theuluoedd Nad Ydynt yn Cydweithredu. Mae'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn aelod gweithredol o baneli Rhianta Corfforaethol a chyfarfodydd MACE, yn ogystal â Grŵp Llywio Plant sy'n Derbyn Gofal GIG Cymru. Hefyd, mae'r Ymarferydd Arweiniol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Diogelu wedi gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr arbenigol i ymgysylltu â chlystyrau meddygon teulu i hyrwyddo gwersi rhanbarthol ar draws maes Gofal Sylfaenol.

Mae'r BIP yn cyfrannu'n weithredol at Rwydwaith Diogelu GIG Cymru ac is-grwpiau. Y Pennaeth Diogelu yw Is-gadeirydd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a'r arweinydd ar ran y BIP ochr yn ochr â Nyrs Ddynodedig yng Ngrŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhwydwaith GIG Cymru.

Mae Hywel Dda wedi arwain cynllun peilot System Rheoli Diogelu Unwaith i GIG Cymru ar ran GIG Cymru, gan gefnogi gwell ansawdd mewn systemau casglu data a dadansoddi ledled Cymru.

I ddathlu 10fed pen-blwydd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, cynhaliwyd cynhadledd ar y thema "GIG Cymru yn Diogelu Gyda'n Gilydd: Bryd Hynny, Nawr, Nesaf" yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 8 Mawrth 2023.

Cyrhaeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y rhestr fer i arddangos pum poster allan o ddeg a gafodd eu harddangos yn y gynhadledd.

**Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu**

***Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*** *wedi cydweithio gyda rheolwr Cartref Preswyl i ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n mynychu'r clinig iechyd rhyw.*

Roedd y posteri ar y rhestr fer a arddangoswyd yn canolbwyntio ar y pum pwnc canlynol:

1. Cryfhau SCAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Diogelu a Phlant sy'n Derbyn Gofal
2. Fframwaith Asesu Iechyd
3. Cronfa Ddata Diogelu mewn Beichiogrwydd
4. Rôl ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
5. Eiddilwch –Gwella Ansawdd ym maes Diogelu

*Posteri a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Cynhadledd 10fed Pen-blwydd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru*



## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn parhau i gyfrannu'n llawn at Fyrddau CYSUR a CWMPAS. Mae cynrychiolwyr BIAP yn cael eu cynrychioli'n rheolaidd yn y Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a chyfarfodydd pob is-grŵp, ac maent yn cefnogi datblygiad parhaus ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae staff y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'u partneriaid amlasiantaeth ym mhob maes o fewn yr agenda ddiogelu gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, MARAC, MAPPA, MACE, PRUDIC, Rhianta Corfforaethol, Adolygiadau Ymarfer, Adolygiadau o Laddiadau Domestig ac archwiliadau amlasiantaeth. Mae BIAP yn parhau i fod yn bartner gweithredol yn Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, gan gymryd rhan yn ei is-grwpiau, ffrydiau gwaith a grwpiau gorchwyl a gorffen.

### Tysteb 1 - Bydwraig:

*"Rwyf wrth fy modd gyda'r codau QR ar y llyfrau coch gan fy mod yn teimlo y gallaf gael rhieni i sganio a bod â'r dolenni ar agor ar eu ffonau. Mae'n gwneud dechrau'r sgwrs yn hawdd. Rwyf hefyd yn hoff iawn o'r daflen wedi'i lamineiddio oherwydd mae eto'n ddeunydd cynorthwyol da gydag adnoddau ychwanegol i gyfeirio'r teuluoedd atynt - bydd hyn hyd yn oed yn well pan fyddant yn y llwybrau ôl-enedigol."*

Mae cwsg mwy diogel wedi bod yn ffocws allweddol o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eleni. Gyda chymorth y Gyfarwyddiaeth Menywod a Phlant, datblygwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol Cwsg Mwy Diogel BIAP gan y Tîm Diogelu, mewn ymateb i nifer o farwolaethau annisgwyl ymhlith plant dros y 18 mis diwethaf yn y sir sydd wedi cynnwys ffactorau risg sy'n ymwneud â chwsg mwy diogel, ochr yn ochr â chysylltiadau ag Adolygiadau Ymarfer Plant rhanbarthol.

Ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gan gynnwys cydweithwyr o wasanaethau Bydwreigiaeth, Ymwelwyr Iechyd a Diogelu, ac fe benderfynwyd llunio dogfen fanwl i gefnogi ymarferwyr a sicrhau bod cyngor clir, cyson ac wedi'i deilwra'n cael ei roi i rieni a gofalwyr. Datblygwyd a recordiwyd cyflwyniad byr i gefnogi lansiad y weithdrefn weithredu safonol ac fe'i rhannwyd yn eang ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyfarfodydd tîm gyda Phractisau Meddygol Teulu a chydweithwyr

a gyflogir gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau cam-drin domestig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod arferion ac amgylcheddau cysgu anniogel yn cael eu hadnabod gan bob ymarferydd sy'n cefnogi teuluoedd a gofalwyr â babanod ifainc.

Mae dogfennaeth bydwreigiaeth BIAP hefyd wedi cael ei diweddaru i gynnwys tudalen o fewn y llwybrau ôl-enedigol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gwsg mwy diogel. Mae hyn yn cefnogi ymarfer bydwragedd ac yn darparu tystiolaeth bod y negeseuon pwysig hyn yn cael eu rhannu gyda rhieni a gofalwyr yn y cyfnod ôl-enedigol cynnar. Mae codau QR Ymddiriedolaeth Lullaby hefyd wedi cael eu hymgorffori yn y llwybr ôl-enedigol a'u defnyddio mewn cyflwyniad poster y gellir ei arddangos mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae sticeri sydd â'r codau QR arnynt wedi cael eu hychwanegu ym mhob cofnod Iechyd Plant, gan roi mynediad hawdd i rieni a gofalwyr at wybodaeth, cyngor a chymorth.

### Tysteb 2 – Ymwelydd Iechyd:

*Rwyf wedi eu cael yn ddefnyddiol iawn ac wedi rhannu'r codau QR mewn ymweliadau. Mae un Tad wedi ei agor a'i ddarllen tra roeddwn ar yr ymweliad ac wedi cychwyn trafodaeth yn enwedig am gyd-gysgu. Mae bod â'r cerdyn wedi'i lamineiddio yn fy nyddiadur yn ddefnyddiol iawn. Rwyf wastad wedi trafod Ap Ymddiriedolaeth Lullaby ac yn dangos hwn iddynt ar fy ffôn personol fy hun. Hefyd, mae'r wybodaeth brintiedig a anfonwyd gennych i ganolfannau'n dda gan y gallaf lungopïo rhai o'r rhain a'u defnyddio os yw'n briodol. Mae'n wych ar gyfer cysondeb ar gyfer cyfleu'r un negeseuon.*

### Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Nododd **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** gyfle i ddatblygu pecyn iechyd ymadawyr gofal ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal/ troi'n 18 oed. Diben y pecyn iechyd oedd rhoi dolenni iechyd i bobl ifanc i wefannau defnyddiol, gwybodaeth am iechyd rhyw, iechyd meddwl a chymorth emosiynol, a chondomau ar gyfer cylchau allweddi.*

**Mae cyflawniadau allweddol eraill ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys:**

- Datblygu Cronfa Ddata newydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Archwilio achosion o Beidio â Dod â Phlentyn i Apwyntiad/ Ymweliadau Pan Na Chafwyd Mynediad
- Datblygu Offer Tracio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyflwyno Fframwaith Cymwyseddau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwybodaeth ategol

## Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)

Mae Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i wella diogelu ar draws GIG Cymru. O safbwynt rhanbarthol, mae gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru berthynas gadarnhaol iawn ag aelodau allweddol o'r Tîm Diogelu Cenedlaethol, gan gynnwys y Meddygon a'r Pediatregwyr Dynodedig sy'n cyfrannu ac yn arwain ar ffrydiau gwaith diogelu cenedlaethol. Mae'r Nyrs Ddynodedig yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd y Byrddau Gweithredol Rhanbarthol a chyfarfodydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer.

Roedd Dr Aideen Naughton yn bresennol yn Niwrnod Datblygu'r Byrddau Gweithredol ym mis Ionawr eleni ac fe wnaeth gyfraniad llawn ato. Yn ystod y pandemig, penderfynwyd lleihau eu mewnbwn a'u cyfraniad i rywfaint o waith ehangach y Bwrdd, gan gynnwys adolygiadau ymarfer. Mae'r sefyllfa wrth edrych tua'r dyfodol yn genedlaethol yn dal i fod yn aneglur ar hyn o bryd, o ran pa rôl fydd ganddynt yn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn y dyfodol.

# Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)

Cynrychiolir Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ym Mwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac maent yn cymryd rhan mewn is-grwpiau a Grwpiau Gweithredol Lleol yn ôl yr angen.

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Welsh Ambulance Services NHS Trust

Mae WAST yn ymwneud yn gyson â phob PRUDiC, MAPF a Chyfarfod Strategaeth Proffesiynol. Er gwaethaf y cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth a'r staff oherwydd pwysau gweithredol ac achosion o weithredu diwydiannol, mae Tîm Diogelu WAST wedi nodi cynnydd parhaus yn y pryderon a adnabuwyd ac adroddiadau diogelu a gyflwynwyd gan staff WAST. Ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod adrodd, fe gyflawnon nhw gyfradd cydymffurfio uwch na 90% â chyflwyno atgyfeiriadau ysgrifenedig i Awdurdodau Lleol o fewn 24 awr ledled Cymru.

Yn ystod gweithredu diwydiannol, roedd yn ofynnol i'r Tîm Diogelu gefnogi sifftiau a gweithgarwch gweithredol gan barhau i gyflawni cyfrifoldebau diogelu craidd. Mae'r Tîm wedi cael ei ehangu yn ystod y flwyddyn, gyda thri arbenigwr diogelu wedi'u recriwtio.
Mae tîm Ymgysylltu â Chleifion a Chynnwys y Gymuned (PECI) WAST wedi gweithio gyda phlant a phobl hŷn i lunio siarter ar gyfer y ddau grŵp sy'n rhoi disgwyliadau'r unigolion hyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth i staff a gweithwyr gwirfoddol. Maent hefyd wedi gweithio'n agos gyda chymuned pobl fyddar, grwpiau anableddau dysgu ac ar hyn o bryd gyda gofalwyr ar sut y gall WAST eu cynorthwyo i gael mynediad at y gwasanaeth.

## Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cynhaliodd **Tîm Diogelu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** archwiliad mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau diogelu (Cymru gyfan) ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chysylltiad â'r gwasanaeth ar gyfer hunan-niweidio/syniadau am hunan-laddiad. Bydd canlyniad yr archwiliad hwn yn helpu i oleuo dysgu ar gyfer y sefydliad y gallwn gynnwys ei fanylion yn y cyfnod adrodd nesaf.*

Mae WAST yn gweithio'n agos gyda PECI i sicrhau bod egwyddorion diogelu'n cael eu hymgorffori mewn unrhyw waith y maent yn ei ddatblygu, a bydd PECI yn ceisio cymorth yn dilyn datgeliadau sy'n dod i law yn ystod eu hymrwymiadau wyneb yn wyneb.

Hefyd, mae'r Tîm Diogelu yn gweithio'n agos iawn gyda thîm Gweithio i Wella WAST pan fyddant wedi cael cwynion a digwyddiadau niweidiol lle mae diogelu'n elfen. Mae presenoldeb diogelu rheolaidd yn Fforwm Digwyddiadau sy'n Achosion Difrifol WAST bob pythefnos.



# Heddlu Dyfed-Powys

Mae Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn parhau i wneud cyfraniad helaeth a gweithredol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Ditectif Uwch-arolygydd o HDP sy'n gynrychiolydd ar y Byrddau'n dal i fod yn Is-gadeirydd Bwrdd CWMPAS, a chynrychiolir swyddogion HDP ar holl lefelau'r Bwrdd, gan gynnwys y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol a phob is-grŵp. Mae Cadeiryddion Panel ar gyfer nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn y rhanbarth yn parhau i gael eu darparu gan Heddlu Dyfed-Powys, ac mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Pob Oed cyfunol newydd yn cael ei gadeirio gan Dditectif Brif Arolygydd o HDP.

Mae'r heddlu'n parhau i gefnogi digwyddiadau, cyfarfodydd a hyfforddiant rhanbarthol trwy ddarparu ystâd. Eleni, cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Diogelu'r Byrddau yng nghyfleusterau HDP yn y rhanbarth, ac mae'r Byrddau'n hynod ddiolchgar i Heddlu Dyfed-Powys am eu lletygarwch a'u cefnogaeth. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eleni i wella'r ymateb i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n profi argyfyngau iechyd meddwl. Erbyn hyn mae gwasanaeth sy'n galluogi staff yn ystafell reoli'r heddlu drosglwyddo galwr sydd mewn trallod yn uniongyrchol i ymarferydd iechyd meddwl a all roi cyngor ac arweiniad ar unwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr unigolyn agored i niwed yn ymgysylltu ag ymarferydd iechyd meddwl cymwysedig yn gyflym a'u bod yn gallu cael yr asesiad, y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt ar unwaith.

## Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Mae **Heddlu Dyfed-Powys** wedi cael nifer o fewnbynnau gan ddioddefwyr troseddau, gan gynnig mewnwelediad i brofiad personol. Mae'r rhain wedi ymwneud â cham-drin domestig, stelcian a llofruddiaeth. Mae pob un o'r mewnbynnau hyn wedi galluogi staff yn y sefydliad i gael mewnwelediad i'r dioddefaint, y rhwystrau i ymgysylltu â'r heddlu a'r trawma o fyw gyda cham-drin domestig gan oleuo ymateb gwell gan yr heddlu i ddigwyddiadau a throseddau o'r fath.*

Mae'r gwaith cydweithredol rhwng y ddwy asiantaeth hyn hefyd wedi galluogi ymarferydd iechyd meddwl i gael ei gydleoli o fewn Hyb Pobl Agored i Niwed yr Heddlu. Mae cam-drin domestig yn dal i fod yn faes blaenoriaeth allweddol o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Eleni, cyflwynwyd peilot i ymateb i gam-drin domestig o bell lle bernir bod hynny'n briodol ac yn dderbyniol i'r dioddefwr. Nodau'r peilot hwn yw gwella amseroldeb yr ymateb i oroeswyr Cam-drin Domestig, lleihau effaith yr hysbysiad, a rhoi mwy o amser i ymgysylltu â'r goroeswr. Bydd hyn yn ennyn gwybodaeth o ansawdd gwell fel y gall swyddogion adnabod a rheoli risg yn briodol, a fydd yn arwain at ganlyniadau diogelu gwell.

Mae'r heddlu hefyd wedi cynnull fforwm i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi hysbysu'n flaenorol am gam-drin rhywiol a cham-drin domestig i roi adborth am fynediad at y gwasanaeth a'r modd y darparwyd y gwasanaeth gan yr heddlu. Rhannwyd yr adborth gyda swyddogion arweiniol i ystyried defnyddio hyn mewn prosesau newid. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn ymgysylltu â'r swyddog BAWSO rhanbarthol, gyda'r nod o ddatblygu prosesau ymgynghori i sicrhau bod llais gan bob grŵp lleiafrifol yn y rhanbarth. Ar hyn o bryd mae HDP yn defnyddio rhai o'r astudiaethau achos gan BAWSO ac yn rhannu'r rhain gyda swyddogion fel eu bod yn deall yn well beth yw effaith diwylliant ar rwystrau i hysbysu am droseddau, ac yn gwella'r gwasanaeth i'w wneud yn fwy hygyrch. Mae'r heddlu hefyd wedi bod yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir a mudiadau'r trydydd sector a all gynorthwyo'r rhai nad ydynt am ymgysylltu â'r heddlu, mewn ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth a bod y modd y cânt eu diogelu'n cael ei wella.

O ran mentrau sy'n canolbwyntio ar gyflawnwyr, mae fframwaith cadarn wedi cael ei weithredu y gall HDP ei ddefnyddio i nodi'r troseddwyr sy'n achosi'r risg uchaf, gan weithredu fel ysgogiad i adolygu ac asesu'r mesurau a gyflawnir i reoli'r troseddwr a diogelu'r gymuned.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Dyfed-Powys

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) yn cyfrannu at y Byrddau Diogelu trwy bresenoldeb rheolaidd a chyson yn y Byrddau Gweithredol a Grwpiau Gweithredol Lleol ac is-grwpiau sylfaenol. Mae Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro yn parhau i gynrychioli buddiannau Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol yn y Byrddau Gweithredol a'r is-grwpiau, gan ledaenu gwybodaeth i gydweithwyr ledled ardal Dyfed-Powys trwy Gyfarfodydd Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol. Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eu hunain yn bartneriaeth amlasiantaeth, gyda mewnbwn statudol gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau ieuenctid ehangach.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, mae'r GCI wedi datblygu adroddiad rhanbarthol gan bob un o'r pedwar Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gynorthwyo a chefnogi gwaith y Byrddau. Mae hyn yn cynnwys data ynghylch ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a/neu sydd â nodweddion eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae hyn wedi galluogi'r Heddlu, Gwasanaethau Plant a phartneriaid eraill i groesgyfeirio gyda'u data eu hunain ac adeiladu gwell darlun cudd-wybodaeth o faterion a heriau penodol a'r goblygiadau ar gyfer adnoddau o ran cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

## Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)

Cynrychiolir y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) ar y Byrddau Gweithredol, y Grwpiau Gweithredol Lleol a rhai is-grwpiau. Mae eu presenoldeb mewn grwpiau lleol a'u hymgysylltiad â hwy wedi bod yn anghyson eleni oherwydd pwysau sylweddol o ran y gweithlu, ond cytunwyd ar gynlluniau i wella hyn. Mae gwaith hefyd wedi digwydd eleni i ymgorffori'r GPC ym mheth o waith ehangach ac yn rhai o is-grwpiau'r Byrddau gan gynnwys polisi a hyfforddiant.

Mae'r GPC wedi rhoi cymorth sylweddol i waith rhanbarthol ym maes Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan helpu i sicrhau cyllid ychwanegol i hwyluso ffrydiau gwaith allweddol ar ymyriadau gyda chyflawnwyr. Mae'r ffocws cynyddol ar ddiogelu yng nghyd-destun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cynyddu nifer y ceisiadau am wiriadau diogelu, ac mae'r galw ychwanegol hwn wedi cael ei ateb trwy gytundeb ar gyfer adnodd gweinyddol ychwanegol trwy Dîm Diogelu'r Cyhoedd a gaiff ei gydleoli ym Mhencadlys yr Heddlu. Mae'r GPC hefyd wedi croesawu 28 o hyfforddeion newydd eleni, yn ogystal â Swyddogion Gwasanaeth Prawf newydd yn Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf.

Un o brif lwyddiannau'r sefydliad eleni fu lansio fframwaith polisi newydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar ddiogelu. Mae'r GPC wedi sicrhau bod pob rheolwr yn ymwybodol o'r fframwaith newydd hwn a'i oblygiadau.



# Cyngor Sir Gâr

Mae Cyfarwyddwr Statudol Cymunedau Cyngor Sir Gâr yn cadeirio Bwrdd CYSUR ac wedi bod yn cyflawni'r rôl hon am nifer o flynyddoedd, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol gyson i'r Bwrdd Gweithredol a'i Grwpiau Gweithredol Lleol ac is-grwpiau. Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd yn arwain ar waith i sicrhau mwy o eglurder a chysondeb mewn arferion diogelu oedolion, gyda ffocws penodol ar Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, mewn perthynas â Rheoli Honiadau/Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r rhai sydd mewn Swyddi o Ymddiriedaeth.

Mae'r swyddi Ymgynghorydd a Chydlynydd Rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu lletya gan Awdurdod Lleol Sir Gâr, ac mae'r rolau hyn yn rhan annatod o ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'i hamcanion. Mae'r Grŵp Cyflawni rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gadeirio gan Uwch Reolwr yng Ngwasanaethau Oedolion Sir Gâr.

Mae Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn Sir Gâr wedi rhoi cymorth helaeth i nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion rhanbarthol yn ystod y flwyddyn, yn rolau cadeiryddion paneli ac adolygwyr. Mae'r prosesau hyn wedi elwa'n fawr o arbenigedd ac ymroddiad yr unigolion sy'n rhoi o'u hamser i'r rolau hyn, ac mae'r Byrddau yn eithriadol o ddiolchgar i'r holl gydweithwyr rhanbarthol sy'n cefnogi mecanweithiau adolygu rhanbarthol yn y modd hwn.

Eleni mae Gwasanaethau Plant Sir Gâr wedi newid i gynnig pob cynhadledd achos plant fel cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ar ôl y pandemig, gyda'r opsiwn o gyfarfod hybrid ar gael. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r fath o bell yn ystod y pandemig; fodd bynnag, cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfarfodydd ym mis Mawrth wyneb yn wyneb ac nid oedd angen yr opsiwn hybrid.

## Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Mae **Gwasanaethau Oedolion Sir Gâr** wedi bod yn allweddol i ddatblygu a threialu'r Protocol rhanbarthol ar gyfer Ymateb Cyflym i Ddigwyddiadau Hunanladdiad Tybiedig, sy'n ceisio cynnal asesiad cyfannol o effaith ehangach achosion o hunanladdiad tybiedig gyda grwpiau cyfoedion a chymunedau. Mae cam peilot y gwaith hwn yn parhau ar adeg ysgrifennu, gydag adborth cadarnhaol wedi dod i law hyd yma ar weithredu'r broses ledled pob ardal yn y rhanbarth. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yng Ngwasanaethau Oedolion Sir Gâr yn parhau i hyrwyddo ffrydiau gwaith a fforymau allweddol ym maes atal hunanladdiad.*

Yn anecdotaidd, mae gweithwyr proffesiynol wedi myfyrio ar y gwahaniaeth y mae cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb wedi'i wneud i'r trafodaethau sy'n digwydd yn y gynhadledd. Nod Gwasanaethau Plant yn Sir Gâr yw gwneud gwelliannau pellach i'r cyfarfod fel y gall fod yn gyfrwng ar gyfer newid i blant sydd mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae'r Adolygiad rhanbarthol o'r Ymateb Amlasiantaeth i Bandemig COVID-19 wedi cael ei arwain gan Sir Gâr, a bydd yn galluogi'r rhanbarth i fyfyrio ar yr ymateb amlasiantaeth i'r pandemig o ran diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'r Grŵp Gweithredol Lleol yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer Sir Gâr wrth edrych at y flwyddyn nesaf, gyda'r bwriad o adnabod cyfleoedd i adolygu a gwella strwythur y fforwm hwn.

# Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod lletyol rhanbarthol ar gyfer Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n hwyluso Uned Fusnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yw Cadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae Sir Benfro yn parhau i gael budd o Dîm Diogelu Integredig, gan gyfuno gwaith strategol diogelu plant ac oedolion mewn un gwasanaeth unedig.

Mae nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant yn y rhanbarth wedi cael cyfraniad helaeth gan Sir Benfro o ran darparu adolygwyr annibynnol, ac mae Sir Benfro yn parhau i chwarae rhan weithredol mewn grwpiau a fforymau ar bob lefel yn strwythur y Byrddau.

Mae Grŵp Gweithredol Lleol Sir Benfro yn fodel o arfer da ledled y rhanbarth yng nghyd-destun ei strwythur, y model ar gyfer ei gadeirio a'i agendâu ac o ganlyniad mae'n cael budd o ymrwymiad cryf a chefnogaeth gref gan bartneriaid rhanbarthol. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol eraill ledled y rhanbarth sydd wedi dilyn esiampl Sir Benfro. Y canlyniad yw cyfarfod effeithiol ac integredig, gyda phresenoldeb ardderchog ac ymrwymiad a chyfraniadau cryf gan bob asiantaeth.

**Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu**

*Mewn ymateb i'r prinder lleoliadau ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal (YPLA), mae **Cyngor Sir Penfro** wedi datblygu model man diogel ar gyfer pobl ifanc sy'n aros am leoliadau ac sydd wedi'u nodi fel risg uchel.*

Mae cydweithio hefyd yn amlwg yn Sir Benfro mewn perthynas â chynlluniau adsefydlu, gan gynnwys Cartrefi i Bobl o Wcráin a Phlant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain (UASC). Mae proses gadarn ar waith ar gyfer gwiriadau diogelu ac mae'r model yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer da o fewn canllawiau statudol cenedlaethol.
Mae amserlen o asesiadau risg hunanwerthuso diogelu awdurdod cyfan wedi cael ei chynnal eleni, sydd wedi dangos cyfradd gwblhau o bron i 100% ar gyfer y cwrs e-ddysgu gorfodol ar 'ddiogelu plant ac oedolion' ar POD ar draws yr adran.



## Cyngor Sir Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi parhau i wneud cyfraniad diwyro a chyson i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a'u ffrydiau gwaith ar bob lefel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant Powys yn parhau i gadeirio'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol, ac mae Gwasanaethau Plant ac Oedolion Powys ill dau wedi darparu cyfraniadau gwerthfawr i adolygiadau ymarfer parhaus eleni trwy rolau cadeiryddion ac adolygwyr.

Mae Strategaeth Camfanteisio ar Blant Powys wedi gweithredu fel sylfaen ar gyfer y Strategaeth Camfanteisio ar Blant Ranbarthol a weithredwyd eleni ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gwasanaethau Plant Powys wnaeth gadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen a chyflwyno'r strategaeth yn y Bwrdd Gweithredol i'w chymeradwyo.

O fewn cyd-destun yr agenda diogelu ataliol, yn ystod y flwyddyn adrodd hon fe grëwyd Canolfan Integredig i Deuluoedd yn y Trallwng. Ariannwyd gwaith i adnewyddu'r adeilad yng nghanol dalgylch Dechrau'n Deg gan gyllid Cyfalaf Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Bydd y tîm Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys Ymwelwyr Iechyd a gweithwyr proffesiynol Iaith a Lleferydd, yn symud o Swyddfeydd Maesydre yn y Trallwng i'r safle. Bydd Tîm Cymorth Cynnar Plant a Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Powys yn ymuno â nhw.

Bydd staff Gwasanaethau Oedolion y cyngor, ynghyd â chydweithwyr o asiantaethau fel Canolfan Deuluoedd Sir Drefaldwyn, hefyd yn rhannu'r swyddfa yn yr adeilad, gan gefnogi dull pob oed amlasiantaeth integredig.

### Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Trwy eu rhaglen ddatblygu Tyfu Ein Gweithwyr Cymdeithasol Ein Hunain, penododd **Cyngor Sir Powys** bum gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso (GCNG) i'r gwasanaeth yn ystod Haf/Hydref 2022. Maent hefyd wedi cynyddu nifer y swyddi gweithwyr llesiant mewn rhai timau i weld a yw hyn yn ffordd fwy effeithiol o weithio. Yn 2023 bydd saith GCNG newydd yn dod i mewn i'r Gwasanaethau Plant, a rhagwelir y bydd naw yn dod i mewn ar gyfer 2024 ac un ar ddeg yn 2025, gan helpu i liniaru heriau parhaus o ran y gweithlu.*

Bydd Canolfan Deuluoedd Integredig y Trallwng, a agorwyd ar 10 Hydref 2022, yn "siop un stop" sy'n rhoi gwasanaethau a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd y ganolfan yn darparu gweithgareddau fel grwpiau rhieni a phlant bach, tylino babanod, gwybodaeth a chyngor, rhaglenni Hyfforddiant Rhianta Blynyddoedd Anhygoel, cyngor iechyd, cymorth i deuluoedd a chwnsela. Agorwyd y Ganolfan yn swyddogol ym mis Chwefror 2023 gan y Dirprwy Weinidog.

O ran Gwasanaethau Oedolion, bu ffocws allweddol eleni ar faes Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth. Mae datblygiadau sylweddol wedi'u cyflawni wrth gyflawni Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth eleni, gan hwyluso'r broses o adnabod a lledaenu gwersi mewn perthynas â meysydd allweddol a nodwyd sy'n berthnasol i'r ardal leol.



# Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cyfrannu at y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar bob lefel. Mae uwch-swyddogion wedi mynychu a chymryd rhan yn holl gyfarfodydd y Byrddau Gweithredol, a cheir cynrychiolaeth gyson briodol ym mhob is-grŵp rhanbarthol a nodwyd. Mae Ceredigion hefyd wedi rhoi cymorth gwerthfawr i Adolygiad Ymarfer Oedolion parhaus eleni trwy ddarparu ail adolygydd.

Eleni, parhaodd Ceredigion i ddatblygu Model Llesiant Pob Oed, a chwblhau a gweithredu'r strategaeth gyflawni 7 mlynedd. O ganlyniad, mae Ceredigion hefyd yn gweithredu Tîm Diogelu Pob Oed, gan weithio gyda'r teulu cyfan mewn ffordd gymesur i ddiogelu pobl, ac i sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth wedi'i dargedu mor gynnar â phosibl.

Bu adolygiad o strwythur cyfredol Ceredigion eleni, ddwy flynedd yn dilyn gwreiddio'r Model Llesiant Pob Oed. Gwnaed rhai newidiadau er mwyn cryfhau'r Tîm Sicrhau Ansawdd er mwyn datblygu gwaith y Fframwaith Sicrhau Ansawdd, ac i alinio'r tîm camddefnyddio sylweddau â'r Tîm Lles Meddyliol. Mae gwasanaethau ac adnoddau Ymyrryd yn Gynnar/Atal wedi cael eu cryfhau gyda gwaith pellach i ddatblygu a chynyddu capasiti, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer plant/pobl ifanc ac oedolion. Mae'r strategaeth Llesiant Pob Oed wedi goleuo'r modd y bydd gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar/Atal yn cael eu datblygu er mwyn atal pobl rhag bod angen gwasanaethau statudol.

Mae rheoli lefelau staffio wedi bod yn her yn y sefydliad oherwydd heriau gyda recriwtio a chadw, y nodir ei fod yn fater cenedlaethol. Roedd hwn yn fater arbennig i'r Tîm Plant Gofal wedi'i Gynllunio ac oherwydd hyn, comisiynodd yr Awdurdod Lleol Dîm a Reolir i gefnogi gwaith gyda phlant a'u teuluoedd.

Mae'r ymwneud gan y tîm hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cynhaliwyd nifer o fentrau gwahanol mewn perthynas ag ymgyrchoedd recriwtio.

### Tynnu Sylw at Ymarfer Diogelu

*Mae Tîm Diogelu Oedolion Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu holiadur Sicrhau Ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi newid i bobl o ganlyniad i ymyriad diogelu. Bydd y gwaith wyneb-yn-wyneb hwn gyda phobl yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.*

Yn arbennig, mae Ceredigion yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth mewn perthynas â datblygu cwrs hyfforddiant gwaith cymdeithasol a allai fod o gymorth gyda hyfforddiant a recriwtio lleol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Lleol yn recriwtio nifer o weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant er mwyn adeiladu ar gynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol.



## Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol

Mae'r holl wasanaethau addysg sy'n gysylltiedig â'r Byrddau yn cydweithio'n dda. Ceir perthnasoedd cryf â phartneriaid eraill gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Prawf a Thimau Troseddau Ieuenctid. Mae pob cyfarwyddiaeth addysg yn rhannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'u risgiau eu hunain er mwyn rhoi cymorth i'w gilydd. Mae Gwasanaethau Addysg o bob rhan o'r rhanbarth yn parhau i ymgysylltu ar bob lefel o fewn strwythur y Bwrdd. Mae cynrychiolydd Addysg ar banel yr holl Adolygiadau Ymarfer Plant yn y rhanbarth, ac yn y grwpiau cynllunio ar gyfer pob Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth sy'n ymwneud â Phlant. Mae'r holl Grwpiau Gweithredol Lleol a holl is-grwpiau'r Bwrdd yn cynnwys presenoldeb parhaus gan gynrychiolwyr Addysg. Mae o leiaf un Cyfarwyddwr Addysg Statudol o'r rhanbarth wedi bod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol eleni.

Mae Gwasanaethau Addysg Sir Benfro, a oedd yn arfer bod yn gynrychiolydd Addysg rhanbarthol trosfwaol ar y Bwrdd Gweithredol, wedi cael eu cynrychioli ym mhob cyfarfod eleni, gydag ardaloedd eraill hefyd yn mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Bwriedir dod i gytundeb yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ynglŷn â chynrychiolaeth hirdymor y Gwasanaethau Addysg ar lefel y Bwrdd Gweithredol, o ran pa un a fydd cynrychiolaeth Addysg ar lefel y Bwrdd Gweithredol yn gynrychiolaeth dreigl ar draws y pedair ardal, ynteu'n cael ei neilltuo i Gyfarwyddwr Statudol dynodedig fel arweinydd rhanbarthol ar gyfer y gwasanaeth. Darperir sicrwydd ynghylch ymarfer diogelu trwy gyflwyno adroddiad blynyddol Adran 175 i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol, sy'n asesiad cynhwysfawr o'r holl brosesau a systemau diogelu o fewn Addysg ar draws y rhanbarth.

## Addysg Bellach Ranbarthol (AB)

Mae'r colegau Addysg Bellach (AB) yn y rhanbarth wedi cefnogi gwaith y Byrddau ac wedi cydymffurfio'n llawn wrth fabwysiadu eu polisïau. Maent hefyd wedi cynnig cefnogaeth i'r Byrddau trwy gael defnyddio lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd, ac wedi cymryd rhan yn holl weithgareddau a digwyddiadau'r Byrddau. Eleni maent wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd Ymateb Cyflym yn dilyn dechrau'r peilot rhanbarthol.

Cynrychiolir cydweithwyr AB ar is-grwpiau'r Byrddau gan yr Uwch Arweinydd Dynodedig ar gyfer Diogelu yng Ngholeg Sir Benfro, sef cyswllt dynodedig rhanbarthol y Byrddau ar gyfer Colegau AB. Mae'r Arweinydd AB hefyd wedi arwain ar yr ymateb rhanbarthol parhaus i ganllawiau Llywodraeth Cymru, canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, ac mae'n cyd-gadeirio Grŵp Diogelu mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, maent wedi ymuno â grŵp gorchwyl a gorffen Grŵp Diogelu mewn Addysg Llywodraeth Cymru i ystyried argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a chynrychioli'r Byrddau, ac maent yn parhau i roi mewnbwn allweddol i'r gwaith parhaus mewn perthynas â chynllunio pontio a hunanladdiad. Mae'r Uwch Arweinwyr Diogelu Dynodedig o Goleg Sir Benfro a Choleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion wedi cael comisiwn gan Lywodraeth Cymru i ysgrifennu pedwar modiwl hyfforddi Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer addysg bellach a staff dysgu seiliedig ar waith ac aelodau o Fyrddau'r Corfforaethau, a fydd yn fyw ar Hwb o fis Awst 2023, ac yn darparu hyfforddiant cyson i'r sectorau sy'n gyfrifol am addysg ôl-16.

Mae colegau AB ar draws y rhanbarth wedi parhau â'u gwaith mewn partneriaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant dysgwyr, ac wedi bod yn llwyddiannus gyda phedwar cynnig am gyllid iechyd meddwl gwerth dros ddwy filiwn o bunnoedd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, sydd wedi sicrhau cymorth sylweddol i ddysgwyr a staff yn y Colegau AB yn rhanbarth y Byrddau.


Mae adnoddau o'r holl brosiectau wedi cael eu lanlwytho ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru. Mae hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu wedi parhau i gael ei ddarparu ar draws y colegau rhanbarthol o bell ac yn y cnawd eleni, yn gyson â'r modiwlau diogelu wedi'u diweddaru. O fewn yr holl Golegau AB, mae timau diogelu cryf a rhagweithiol wedi cael eu gwella a'u datblygu ymhellach eleni, sydd wedi chwarae rhan ganolog mewn trefniadau gweithio amlasiantaeth. Maent hefyd yn rhoi cymorth ôl-16 i waith Awdurdodau Lleol i weithredu Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac maent yn cymryd rhan yn y fforymau atal hunanladdiad rhanbarthol a lleol. Yn ystod Tymor yr Hydref 2022, cymerodd y Colegau ran mewn arolygiad thematig gan Estyn a oedd yn ymwneud â cham-drin rhwng cyfoedion. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Thematig ar yr arolygiad ar 7 Mehefin 2023 ac roedd yn cynnwys saith argymhelliad ar gyfer y sector. Bydd yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn cyflwyno'r adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu lleol yn y Grwpiau Gweithredu Lleol priodol.

## Cynrychiolydd Comisiynu Rhanbarthol

Cynrychiolir Partneriaeth Gomisiynu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Byrddau Gweithredol ac mae'n cysylltu â Phartneriaeth Gomisiynu Powys ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Mae Timau Comisiynu wedi cydweithio ar draws y rhanbarth gyda Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, AGC a phartneriaid eraill i gefnogi'r darparwyr mewnol a'r darparwyr a gomisiynwyd yn y sector i liniaru effaith sylweddol COVID-19.

Mae'r Gwasanaethau Comisiynu wedi gweithio'n rhagweithiol gyda'r sector i gefnogi nifer o amcanion allweddol y Bwrdd, yn benodol, cryfhau'r gweithlu a rheoli risg. Mae natur fregus y farchnad, sy'n gysylltiedig yn bennaf â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn fater allweddol o ran ateb gofynion gwasanaethau. Mae gwaith cydweithredol a wnaed yn y rhanbarth wedi bod yn allweddol wrth reoli a cheisio lliniaru'r risg hon. Mae Gwasanaethau Comisiynu wedi cydweithio i gyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Gorllewin Cymru, sydd wedi nodi risgiau allweddol ar draws yr holl weithgareddau a reoleiddir (yn rhai oedolion a phlant), gydag argymhellion i liniaru methiant y farchnad a datblygu gwasanaethau amgen sy'n gysylltiedig â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. O safbwynt diogelu, mae hyn yn allweddol er mwyn osgoi risgiau fel lleoliadau amhriodol, lleoliadau heb eu rheoleiddio, a lliniaru methiant y farchnad.

Mae mentrau lleol yn cynnwys datblygu a gweithredu ymgyrch 'Yn Sir Benfro Rydym yn Gofalu', i gefnogi recriwtio a chapasiti'r gweithlu i sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu diwallu. Mae gofal cartref wedi cael ei ail-gomisiynu yn Sir Gâr, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a thelerau ac amodau. Mae mentrau recriwtio a chadw hefyd wedi cael eu cynnal gan y sector. Gwelwyd rhai arwyddion cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran y dirwedd gomisiynu, megis lleihad mewn rhestrau aros a mwy o sefydlogrwydd yn y farchnad; fodd bynnag, pwyll a chydweithio piau hi o hyd ar draws y sector i barhau i reoli ac ymateb i risg o fewn y maes hwn. Mae cyflawniadau allweddol yn y sector comisiynu eleni'n cynnwys goruchwyliaeth barhaus ar ansawdd a pherfformiad darparwyr, yn ogystal â gwella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cartref a gomisiynwyd i gefnogi heriau o ran y gweithlu.



*'Yn Sir Benfro Rydym yn Gofalu'*

# (h) Asesiad o sut y mae'r Byrddau'n defnyddio eu hadnoddau


Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio'r fformiwla gyllido genedlaethol i asesu ac adnabod cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae'r graffiau a'r siartiau isod yn dangos sut y mae'r Byrddau wedi defnyddio eu hadnoddau ariannol yng nghyd-destun incwm, gwariant a chyfraniadau partneriaid yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Eleni mae'r Byrddau wedi ysgwyddo gwariant ychwanegol sylweddol a chostau i ariannu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chais am adolygiad barnwrol a wnaed yn erbyn Bwrdd CYSUR. Mae costau cyfreithiol posibl pellach mewn perthynas â chamau cyfreithiol unigol eraill yn yr arfaeth ar adeg cyhoeddi ac mae angen ystyried sut y dylid ariannu unrhyw gostau tebyg yn y dyfodol.

Nid yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Byrddau Gweithredol, Cadeiryddion Is-grwpiau ac aelodau yn rhoi cryn dipyn o'u hamser i gefnogi'r Byrddau a'u gwaith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

Mae natur amrywiol gwaith y Byrddau'n gwneud hyn yn anodd adrodd arno o fewn cyd-destun adnoddau meintiol a mesuradwy, ac nid yw bob amser yn weladwy i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill y tu allan i'r Bwrdd. Mae proses, rheoli a chyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol, yn ogystal â phrosiectau sy'n gofyn am lefelau uchel o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol yn rhai enghreifftiau yn unig o waith y Bwrdd.
Mae holl bartneriaid statudol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfrannu'n ariannol at redeg y Byrddau, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyfraniad hwn yn seiliedig ar ardaloedd poblogaeth o fewn y rhanbarth ar draws y sefydliadau amrywiol. Roedd cyfanswm yr incwm i'r Byrddau Diogelu eleni heb gynnwys cyllid grant yn £170,956, sy'n sylweddol is na'r rhan fwyaf o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru.


## Incwm 2022 - 2023



Yn 2022-23, neilltuwyd y rhan fwyaf o wariant y Byrddau i gostau rhedeg cyffredinol, gan gynnwys staffio’r Uned Fusnes (80%).

Roedd comisiynu gwasanaethau a hyfforddiant yn rhoi cyfrif am 12% o wariant y Byrddau, sy’n adlewyrchiad o’r allbwn cynyddol gan yr Is-Grŵp Hyfforddiant wrth gyflwyno’r Strategaeth Hyfforddiant a’r Cynllun Cyflawni 3 blynedd sy’n cyd-fynd â hi.

## Gwariant 2022 - 2023




Roedd cyfanswm costau gweinyddol a TG yn 4% eleni, gyda chyfanswm costau cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu yn 3%, gan adlewyrchu’r arfer cynyddol o gynhyrchu adnoddau a chynnwys ar gyfer ymarferwyr a’r cyhoedd. Roedd teithio, lleoliadau a chyfathrebu’n rhoi cyfrif am ddim ond 1% o’r gwariant, gyda chostau TG ymylol o lai nag 1% yn y flwyddyn. Mae’r dadansoddiad o’r gwariant eleni yn gyson â blynyddoedd blaenorol, ac eithrio’r costau cyfreithiol y cyfeirir atynt uchod, ac mae’n adlewyrchu allbynnau’r Byrddau a’u swyddogaethau.



# (i) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau diogelu wedi arfer eu swyddogaethau

## Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Mae gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad model yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i ddysgu gwersi o adolygiadau, gan gynnwys Adolygiadau Ymarfer Plant (CPRs), Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs) ac Adolygiadau o Laddiadau Domestig (DHR) wedi parhau i fod yn thema allweddol o fewn gwaith a blaenoriaethau'r Bwrdd eleni. Mae gwaith wedi parhau i roi cymorth i ddiweddaru'r model cenedlaethol presennol yng Nghymru a drafftio canllawiau statudol newydd. Mae Cadeirydd Bwrdd CYSUR, Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol, y Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer ac aelodau eraill o is-grwpiau wedi parhau i gyfrannu at grwpiau gorchwyl a gorffen cenedlaethol i ddatblygu'r gwaith hwn. Mae hyn yn cyd-fynd â buddsoddiad helaeth a neilltuwyd yn lleol i gryfhau ein gwaith rhanbarthol ac i uno ein his-strwythurau ac is-grwpiau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac is-grwpiau yn un is-grŵp pob oed.

## Datblygu Ymarfer Diogelu Oedolion Amlasiantaeth

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ffodus o fod â grŵp cryf ac ymrwymedig o uwch reolwyr ac arweinwyr strategol amlasiantaeth sydd wedi parhau i gydweithio eleni i gryfhau a gwella ymarfer ac ymyriadau diogelu ledled y rhanbarth ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd gyda ffocws i sefydlu ymarfer cyson ar draws ardaloedd y pedwar awdurdod lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae prosiectau y mae'r grŵp wedi cydweithio arnynt eleni'n cynnwys gwaith i gryfhau'r dull a fabwysiadwyd o ran Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r rhaid mewn Swyddi o Ymddiriedaeth. Nod y gwaith hwn fu cefnogi ymarfer lle mae bylchau, a lle mae angen mwy o eglurder ynghylch Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi ffrwd waith genedlaethol sy'n cael ei harwain gan Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a bydd yn helpu i ddylanwadu ar ddiweddariadau i adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r grŵp amlasiantaeth hefyd wedi cydweithio i fynd ati ymhellach i ddatblygu pecyn hyfforddiant diogelu pwrpasol ar gyfer Heddlu Dyfed Powys a ddarperir i gefnogi eu cwrs hyfforddi Ymchwilwyr Cam-drin Plant Arbenigol: Rhaglen Ddatblygu (SCAIDP) ar gyfer swyddogion heddlu. Mae prosiectau eraill y mae'r grŵp wedi cydweithio arnynt yn cynnwys gwaith i weithredu model adolygu cyflym ar gyfer atal hunanladdiad (rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys isod), a datblygu'r Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Ddiogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth.



## Dyletswydd Trais Difrifol 2023

Ynghyd â pherthnasoedd cryfach â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, eleni mae'r Byrddau wedi ymrwymo i roi cymorth i weithredu Dyletswydd Trais Difrifol a ddechreuodd ar 31 Ionawr 2023, gan osod dyletswydd ar awdurdodau lleol penodedig ynghyd ag asiantaethau eraill i gydweithio i leihau digwyddiadau trais, gan gynnwys troseddau gyda chyllyll a drylliau ac i atal achosion o golli bywyd.

Mae'r gwaith hwn yn ei gamau cynnar; fodd bynnag, mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid amlasiantaeth a Crest Advisory, sydd wedi cael comisiwn gan y Swyddfa Gartref i weithio gyda phartneriaid i roi cymorth i weithredu'r ddyletswydd, ac sydd wrthi'n cwblhau asesiad anghenion strategol ledled y rhanbarth.

## Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol a'i Drechu

Er i'r cynllun gweithredu cenedlaethol tair blynedd ddod i ben yn ffurfiol yn 2022, mae gwaith i weithredu'r negeseuon a'r adnoddau allweddol a ddatblygwyd i ategu'r cynllun wedi parhau eleni.

Mae peth wmbredd o wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau cysylltiedig yn dal i fod ar gael i staff ar fewnrwydi a gwefannau'r Byrddau ac asiantaethau, a thrwy hyrwyddo mewn sesiynau briffio a chylchlythyrau ar gyfer staff. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â Cham-drin Plant a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol, a'r ymgyrch "mae'n bryd i ni siarad amdano." Mae Arweinwyr Diogelu mewn Addysg wedi parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth, sydd wedi cynnwys hyrwyddo amryw adnoddau perthnasol a mynediad at becynnau hyfforddi, fel llyfryn Ymddiriedolaeth Lucy Faithfull What's the Problem?', canllaw i rieni plant a phobl ifanc sydd wedi mynd i drafferthion ar-lein.

Mae'r Grwpiau Strategol a Chyflawni Rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi parhau i wneud gwaith sylweddol mewn perthynas â hyrwyddo gwybodaeth i blant, rhieni a gofalwyr am berthnasoedd iach. Mae hyn yn cynnwys gwaith gydag Arweinwyr y Cwricwlwm ledled y rhanbarth mewn perthynas â'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas a sicrhau bod pynciau sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu cyflwyno'n gyson ac yn hyderus.

Mae partneriaid o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mynychu a chefnogi digwyddiadau a gweithdai cenedlaethol a hwyluswyd gan Plant yng Nghymru i gefnogi'r gwerthusiad cenedlaethol o'r cynllun ochr yn ochr â chyhoeddi'r adroddiad llawn ar yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac mae'r Byrddau'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi a gweithredu cam nesaf y gwaith hwn.



## Chwilfrydedd Proffesiynol

Mae'r angen i weithwyr proffesiynol arfer chwilfrydedd proffesiynol mwy cadarn a gwell wrth ymyrryd ym mywydau plant neu oedolion a allai wynebu risg o niwed wedi bod yn thema mewn nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth ledled y rhanbarth. Nid yw hyn yn unigryw i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac rydym yn ymwybodol bod hyn yn cael sylw'n gyson mewn adolygiadau mewn Byrddau eraill yng Nghymru, ac mewn adolygiadau diogelu a gyhoeddwyd ledled y DU.

Gan hynny, mae buddsoddiad sylweddol wedi'i neilltuo gan yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol i ddatblygu pecyn hyfforddiant amlasiantaeth pob oed pwrpasol ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr sy'n cyd-fynd ag ef. Gweler Adran L am ragor o wybodaeth am gyflwyno'r hyffforddiant hwn.

## Cynllun Peilot y Model Ymateb Cyflym

Yn dilyn cynllunio a gwaith sylweddol a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, mae cynllun peilot 12 mis i dreialu model ymateb cyflym mewn perthynas â hunanladdiad tybiedig ar gyfer plant ac oedolion wedi cael ei roi ar waith. Y pwrpas yw rhoi cymorth cyflym wedi'i dargedu i aelodau'r teulu, cyfoedion a'r gymuned pan fydd achosion o hunanladdiad yn digwydd ac mae hyn yn rhan o waith ehangach y Byrddau ar iechyd meddwl, hunanladdiad a hunan-niwed.

Bydd canlyniad y cynllun peilot yn cael ei werthuso'n ffurfiol yn y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys ei effaith o safbwynt cefnogi ac atal.

## Cwsg Diogel

Mae niferoedd parhaus a chynyddol o farwolaethau ataliadwy a oedd yn gysylltiedig â babanod yn cyd-gysgu gyda rhieni wedi parhau i fod yn amlwg yn yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plant (PRUDiCs) ledled y rhanbarth eleni, yn ogystal ag Adolygiadau Ymarfer Plant. Rydym yn ymwybodol nad yw'r duedd hon yn unigryw i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i bod i'w gweld mewn Byrddau eraill yng Nghymru.

Mae partneriaid iechyd wedi cyfleu pryderon i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac o ganlyniad yn uniongyrchol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cytuno i gynnal adolygiad cyflym o Ymatebion Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plant a oedd yn gysylltiedig â chwsg diogel ledled Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd hyn yn canfod a oes angen gweithredu ar unwaith neu a oes gwersi amlwg i'w dysgu. Mae llenyddiaeth leol gan gynnwys gweithdrefn weithredu safonol wedi cael ei datblygu gan bartneriaid iechyd, ac mae hon wedi cael ei rhannu a'i hyrwyddo'n eang gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth. Bydd adnabod ffyrdd y gall asiantaethau gydweithio â rhieni er mwyn osgoi marwolaethau hynod ataliadwy yn well yn ffrwd waith allweddol i'r Byrddau eleni fel rhan o gynllun gweithredu cyhoeddedig ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant.

# Ymddygiadau Risg-Uchel ar gyfer Oedolion sy'n Wynebu Risg (Gan Gynnwys Celcio a Hunan-Esgeuluso)

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru yn darparu fframwaith cadarn a chynhwysfawr i asiantaethau ddarparu ymyriad cynnar i oedolion sy'n arddangos ymddygiadau risg-uchel, gan gynnwys y rhai sy'n celcio ac yn hunan-esgeuluso.

Er gwaethaf hyn, mae nifer anghymesur o uchel o achosion yn amlwg mewn atgyfeiriadau i'r Byrddau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth, lle mae oedolion yn anffodus naill ai wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol lle'r oedd gweithwyr proffesiynol yn gwybod ac yn deall pryderon o'r math hwn, ond a hwythau'n aml yn teimlo'n ddi-rym i ymyrryd yn effeithiol i atal niwed neu leihau risg.

Yn dilyn gweithredu protocol rhanbarthol i gefnogi'r maes gwaith hynod gymhleth a heriol hwn y llynedd, mae gwaith wedi parhau eleni dan arweiniad yr Arweinwyr Diogelu Oedolion i weithredu'r model yn gyson.

Mae'r niferoedd sy'n bodloni'r meini prawf i gael eu hystyried gan y model yn is na'r disgwyl a bydd hyn yn cael ei adolygu ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod. Y gobaith yw y bydd y fframwaith yn helpu i wella dealltwriaeth ymarferwyr am y ddeddfwriaeth yng Nghymru, ochr yn ochr â dealltwriaeth fanylach a gwell am sut y gellir gweithredu deddfwriaeth galluedd meddyliol i gefnogi oedolion mewn dull amlasiantaeth mwy creadigol sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau.



## Heriau Cyfreithiol

Eleni, mae'r Byrddau wedi bod yn destun dwy her gyfreithiol. Roedd y gyntaf yn ymwneud ag Adolygiad Barnwrol a gynhaliwyd ar gais gan aelod o deulu plentyn ymadawedig, mewn perthynas â dogfen a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r plentyn gan Fwrdd Diogelu Plant Lleol, cyn i'r Byrddau ddod i fodolaeth. Enwyd CYSUR fel diffynyddion yn y cais hwn, gyda'r ymgeisydd yn honni bod CYSUR wedi etifeddu'r ddogfen pan sefydlwyd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Ystyriodd yr Adolygiad Barnwrol a oedd gan CYSUR y pŵer i ryddhau'r ddogfen, nad oedd wedi'i chreu ac nad oedd ganddo berchnogaeth arni na mynediad ati, i'r ymgeisydd.

Cafodd CYSUR gynrychiolaeth gyfreithiol trwy gydol yr achos hwn am gost sylweddol i'r Byrddau, a ariannwyd gan ddefnyddio cyfran sylweddol o gronfeydd wrth gefn y Byrddau. Roedd y dyfarniad a gyhoeddwyd yn cadarnhau safbwynt CYSUR nad oedd ganddo'r pŵer i ryddhau'r ddogfen, gan nodi'r ffaith nad oedd wedi creu na chyhoeddi ac nad oedd yn dal y ddogfen dan sylw. Ar ben hynny, nid oedd y ddeddfwriaeth a ddarparodd ar gyfer creu Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn nodi bod Byrddau yn etifeddu unrhyw ddyletswyddau a oedd gan y Byrddau Diogelu Lleol sydd bellach wedi darfod.

Roedd yr ail achos cyfreithiol y bu CYSUR yn rhan ohono'n ymwneud â Chwest a gynhaliwyd mewn perthynas â phlentyn arall o'r un ardal leol. Gofynnodd y Crwner yn yr achos hwnnw am wybodaeth, ac wedyn sylwadau gan CYSUR, i ystyried a ddylid gwneud CYSUR yn Barti â Buddiant yn yr achos hwnnw ar gais y teulu. Byddai'r cwest yn ystyried trefniadau rhyngasiantaethol rhwng gwasanaethau lleol, a gofynnodd y teulu am wneud CYSUR yn Barti â Buddiant i ystyried pa mor effeithiol y mae'n "cyflawni ei ddyletswyddau goruchwylio statudol".


O ganlyniad, roedd yn ofynnol i CYSUR geisio cynrychiolaeth gyfreithiol i egluro nad oedd ei swyddogaethau'n ymestyn i faterion gweithredol o'r fath, yr ymdrinnir â hwy gan yr Awdurdod Lleol perthnasol. At hynny, ac am y rheswm hwn, ni fu gan CYSUR unrhyw ymwneud â'r plentyn cyn ei farwolaeth drasig. Fe wnaeth y Crwner gadarnhau safbwynt CYSUR ar y sail nad oedd ganddo fuddiant digonol yn yr achos i gael statws Parti â Buddiant. Roedd yr achos hwn yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn adrodd ac ers hynny mae wedi dod i ben gyda'r canlyniad a grybwyllwyd uchod, h.y. na ddylai CYSUR ddod yn Barti â Buddiant.




# Diogelu Pobl

## • Cefnogi her ac atebolrwydd proffesiynol effeithiol wrth gyflawni ymarfer diogelu

Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd y Byrddau, sy'n cynnwys set ddata gynhwysfawr ochr yn ochr ag amserlen archwilio rhanbarthol leol a thematig, wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gynhwysfawr eleni. Bydd hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth y Byrddau am ymarfer diogelu proffesiynol, ac mae data bellach yn cyd-fynd â'r dangosyddion perfformiad newydd a ddiweddarwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae data newydd sy'n gysylltiedig â meysydd ymarfer sydd o ddiddordeb cyffredin yn y rhanbarth gan gynnwys pryderon proffesiynol, y rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth ac uwchgyfeirio pryderon hefyd wedi cael ei gyflwyno. Bydd hyn yn cefnogi uwcholwg gadarn y Byrddau Gweithredol Rhanbarthol o ymarfer diogelu amlasiantaeth lefel-uchel ledled y rhanbarth, trwy graffu ar adroddiadau trosolwg chwarterol sy'n cynnwys dadansoddiad o dueddiadau rhanbarthol a lleol allweddol. Mae hyn yn cefnogi'r Byrddau yn eu hymrwymiad i herio effeithiol a dwyn asiantaethau i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu a'r modd y darperir gwasanaethau'n syrthio'n is na'r safonau disgwyliedig.




*Graff yn dangos nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref eleni yn ein rhanbarth*




*Graff yn dangos nifer y digwyddiadau domestig a oedd yn cynnwys oedolion eleni yn ein rhanbarth*

## • Adolygiadau Ymarfer a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth

Mae nifer o Adolygiadau Ymarfer yn dal i fynd rhagddynt, ac mae tri wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Mae hyn ochr yn ochr â rhaglen weithredol o Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth gyda sawl un yn dal i fynd rhagddynt ac wedi dod i ben eleni. Mae'r themâu a nodwyd i'w hystyried o ganlyniad i'r adolygiadau hyn yn cynnwys:

- Yr angen am hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth mewn perthynas â chwilfrydedd proffesiynol a chydymffurfiaeth gudd
- Yr angen am well hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ymarferwyr mewn perthynas â deddfwriaeth galluedd meddyliol
- Atal hunanladdiad
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau
- Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chwsg diogel
- Yr angen am rannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau



# (j) Pryd a sut mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd

## Prosiect Animeiddio Rhanbarthol

Prif amcan Bwrdd Iau cyfunol CADW eleni fu cwblhau a lansio "Yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech Osgoi wrth Ofalu". Mae'r animeiddiad gorffenedig a'r fideo cysylltiedig yn becyn neilltuol o adnoddau sy'n adlewyrchu ymroddiad a thalent y bobl ifanc sy'n eistedd ar Fwrdd Cadw.

Mae'r adnodd hwn yn ychwanegiad amhrisiadwy at hyfforddiant diogelu ledled y rhanbarth.

## Digwyddiad Preswyl CADW 2022

Ar ôl dwy flynedd o gynnal "Digwyddiadau Preswyl Tra Gwahanol", digwyddiadau cymdeithasol rhithwir a drefnwyd yng ngoleuni cyfyngiadau COVID-19, roedd Bwrdd CADW wrth eu bodd i gael dod at ei gilydd wyneb-yn-wyneb unwaith eto yn 2022 ar gyfer Digwyddiad Preswyl yn y cnawd yn Aberhonddu, Powys.

Mae aelodaeth CADW wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i rai pobl ifanc symud ymlaen at anturiaethau newydd fel coleg, Prifysgol a chyflogaeth. Mae'r Byrddau yn dymuno diolch i aelodau CADW sy'n gadael a'r rhai sy'n parhau am eu cyfraniad a'u cyflawniadau sylweddol hyd yn hyn.

Teimlwyd hefyd fod natur rithwir y grŵp wedi mynd yn llai dymunol wrth i amser fynd yn ei flaen; fodd bynnag, yn ystod y gweithdai a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect animeiddio fe wnaeth CADW groesawu aelodau newydd o wahanol ardaloedd yn y rhanbarth.

Serch hynny, gan bod maint y grwpiau wedi gostwng mewn rhai ardaloedd eleni, a chan gydnabod y newidiadau mewn aelodaeth ers dechrau CADW, roedd Digwyddiad Preswyl eleni yn gyfle i fagu rhywfaint o gymhelliant ar gyfer y Bwrdd Iau a chael barn pobl ifanc ynglŷn â sut y dylai'r grŵp symud ymlaen.

Daeth naw o bobl ifanc i'r Digwyddiad Preswyl eleni, gan fwynhau dringo dan do ac abseilio yn y ganolfan weithgareddau dan do yr oeddent yn aros ynddi, cyn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB). Adolygwyd y Cylch Gorchwyl




*Syniadau a rannwyd gan CADW yn ystod Digwyddiad Preswyl eleni yn Aberhonddu, Powys*

a chafwyd trafodaeth am ba faterion y byddent yn canolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yna gwyliodd y bobl ifanc ddangosiad cyntaf yr animeiddiad “Yr Hyn i’w Wneud a’r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu,” a buont yn trafod pa gwestiynau y gallent eu gofyn i weithwyr proffesiynol yn ystod y trafodaethau bord gron yn y digwyddiad lansio a fyddai’n cael ei gynnal yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu.


Fe wnaeth person ifanc o Geredigion gyfweld â’r bobl ifanc eraill ynglŷn â gwneud yr animeiddiad a sut roedden nhw’n teimlo amdano, gan ddefnyddio’r deunydd hwn i ddatblygu chwaer-fideo i’r animeiddiad ei hun. Mae’r ddau fideo yn cael eu rhannu gyda’i gilydd, fel bod myfyrdodau’r bobl ifanc yn ategu ac yn ehangu ar y cynnwys yn yr animeiddiad a gynhyrchwyd.

Fe wnaeth y Digwyddiad Preswyl hefyd hwyluso’r broses o drosglwyddo rheolaeth y grŵp i swyddog newydd oherwydd y newid mewn staff yn TGP Cymru. Gan bod y swyddogion a oedd yn gadael a’r swyddogion newydd a benodwyd yn bresennol yn y Digwyddiad Preswyl gyda’i gilydd fe wnaeth hynny alluogi proses bontio’n esmwyth a pharhad o ran y cynnydd a wnaed yn y grŵp hyd yma.

Mae’r Byrddau yn edrych ymlaen at weithio gyda’r Swyddog Cyfranogi newydd yn y flwyddyn sydd i ddod ar flaenoriaethau a ffrydiau gwaith newydd Cadw yn dilyn yr adolygiad o weithredu “Yr Hyn i’w Wneud a’r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu”.

Mae **Llysgenhadon Diogelu Ieuenctid Powys (PAYS)** wedi profi lefel aelodaeth is eleni, gydag un aelod gweithredol yn unig yn ystod y cyfnod adrodd. Serch hynny, mae’r person ifanc hwn wedi bod yn aelod allweddol o Fwrdd rhanbarthol CADW, gan roi mewnbwn amhrisiadwy i nifer o gamau a oedd y rhan o’r prosiect animeiddio a ddaeth i ben eleni, a chan fynychu Digwyddiad Preswyl eleni.

Mae PAYS yn sicrhau bod gweithgarwch a gwybodaeth gan CADW yn cael eu bwydo’n ôl i Grŵp Gweithredol Lleol Powys a’r Bwrdd Cychwyn Da Iau. Mae ymgyrch recriwtio yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf o fewn PAYS, a’r gobaith yw y bydd Digwyddiad Preswyl eleni’n cynnwys aelodau newydd a fydd yn cael eu recriwtio i mewn i Bowys yn ystod y misoedd nesaf.



*Llun o Ddigwyddiad Preswyl CADW 2022*

Mae **'Sêr Saff' Ceredigion a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion** wedi wynebu heriau tebyg o ran eu haelodaeth yn ystod y flwyddyn, gyda nifer o aelodau hirsefydlog yn symud ymlaen i borfeydd newydd ar ôl blynyddoedd lawer o ymgysylltu ymroddgar â'r grwpiau lleol a rhanbarthol.

O ganlyniad, dim ond un aelod gweithredol sydd gan 'Sêr Saff' Ceredigion ar hyn o bryd, er ei fod yn hanesyddol wedi cynnwys y gyfran fwyaf o aelodaeth CADW yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'r aelod o 'Sêr Saff' sy'n weddill wedi parhau i wneud cyfraniad anfesuradwy i waith CADW eleni. Mae wedi defnyddio ei sgiliau sinematig a golygyddol rhagorol i gynhyrchu adnodd sy'n cyd-fynd â "Yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu", ar ôl gweithio gydag aelodau eraill CADW i gynhyrchu'r darn hwn o waith yn ystod y Digwyddiad Preswyl. Yr adborth yn y digwyddiad lansio ar gyfer yr adnodd hwn oedd bod y fideo sy'n cyd-fynd yn cyfoethogi negeseuon yr animeiddiad yn fawr, a rhannwyd awydd cryf i hyrwyddo'r ddau adnodd fel pecyn. Cynhyrchwyd fersiwn gywasgedig o'r fideo hwn i i'w gwneud yn bosibl ei rannu'n ehangach byth mewn cyfarfodydd a hyfforddiant amlasiantaeth.

Bu newid yn Swyddog Cyfranogi 'Sêr Saff' Ceredigion eleni hefyd, sy'n dechrau yn ei rôl gyda ffocws ar recriwtio. Ar adeg ysgrifennu, mae digwyddiadau wedi'u hamserlennu ar gyfer haf 2023 sydd wedi'u bwriadu i hyrwyddo CADW a denu aelodau newydd i sicrhau sefydlogrwydd parhaus a chynrychiolaeth ranbarthol o fewn y Bwrdd Iau.

Nid yw Cyngor Sir Gâr yn comisiynu Bwrdd Iau lleol ac mae materion diogelu pobl ifanc yn cael eu casglu trwy **Gyngor Ieuenctid Sir Gâr (CISG)**, sy'n parhau i redeg y cynllun Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant. Eu prif rôl fel Llysgenhadon yw hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gweithredu fel llais ar ran pobl ifanc leol a throsglwyddo eu barn i Gomisiynydd Plant Cymru.

Canolbwyntiodd CISG ar Gam-drin Domestig fel y mater a oedd yn flaenoriaeth iddynt dros y flwyddyn ddiwethaf ac fe sefydlon nhw is-grŵp newydd i ganolbwyntio ar y pwnc hwn. Mae'r grŵp wedi cael hyfforddiant a gwybodaeth am gam-drin domestig, gyda ffocws penodol ar herio mythau a deall gwasanaethau sy'n gallu cynnig cymorth. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn datblygu sgript ar gyfer drama am berson ifanc y mae ei riant yn profi camdriniaeth, sy'n dal i fynd rhagddo ar adeg ysgrifennu.



*Poster a ddyluniwyd gan CISG ar gyfer eu hymgyrch "Codi llais yn erbyn trais"*

Eleni, mae CISG yn cymryd rhan yn y Wobr Cysgodi Cynghorwyr Lleol achrededig. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i'r bobl ifanc ymgysylltu â chynghorwyr wyneb-yn-wyneb, ac ennill gwybodaeth a sgiliau a fydd yn hwyluso eu cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd ac yn eu helpu i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor Ieuenctid hefyd wedi ymgysylltu'n weithredol â nifer o ymgyngoriadau ar bynciau fel iechyd meddwl a lles, tlodi plant, ac effaith COVID-19.





Mae **Gwarcheidwaid Diogelwch Iau Sir Benfro** wedi bod yn gweithio'n galed i ailsefydlu eu hunain ers y pandemig, ac maent wedi bod yn symud ymlaen yn araf wrth gynllunio'r hyn yr hoffent ei gyflawni yn 2023-2024. Trwy gydol y cyfnod hwn, maent wedi dal i gynnal cysylltiadau cryf ag ystod o wasanaethau yng Nghyngor Sir Penfro sy'n sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais a'u bod yn dylanwadu ar wasanaethau sy'n eu cefnogi.

Fe wnaeth y Gwarcheidwaid Diogelwch Iau, mewn cydweithrediad ag Ieuenctid Sir Benfro ac adran Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro, gynnal Gwobrau Sbotolau Sir Benfro a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2022 yn Theatr Myrddin, Coleg Sir Benfro. Bu'r bobl ifanc yn rhan o ddylunio'r digwyddiad, llunio'r rhestr fer o enwebiadau ac fe gymeron nhw ran ar y noson.

Ffrwd waith allweddol a gynhaliwyd eleni oedd gwaith ar y cyd rhwng y Gwarcheidwaid Diogelu Iau a Chynulliad Ieuenctid Sir Benfro, a gynhyrchodd yr ymgynghoriad "Beth sy'n Bwysig i Chi" ar y cyd.

**Cymerodd 4,082 o bobl ifanc ran yn yr ymgynghoriad, a dangosir y canlyniadau isod:**



# (k) Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn

Ni fu unrhyw geisiadau am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2022-23, a dim ond un cais a fu yn y rhanbarth hwn ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Byrddau yn ymwybodol bod y duedd hon yn debyg i weithgarwch mewn ardaloedd eraill ac yn croesawu unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhesymau tebygol dros hyn.



# (l) Gwybodaeth neu wersi y mae'r Byrddau wedi'u lledaenu a'r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd

## Gwefan

Mae gwefan y Byrddau yn parhau i weithredu fel man canolog sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys sut i roi gwybod am bryder ac fel ystorfa ar gyfer polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol ac adroddiadau Adolygu Ymarfer.

Mae'r Uned Fusnes wedi gweithio ymhellach i ddatblygu tudalen hyfforddi'r wefan eleni, gyda mwy o bwyslais ar ledaenu manylion gweithdai, seminarau a digwyddiadau hyfforddi sy'n digwydd ledled y rhanbarth. Mae'r adran hyfforddiant hefyd wedi'i hestyn i gynnwys ardal newydd sy'n lletya'r adnoddau hyfforddiant diogelu a ddatblygwyd gan ein Bwrdd Iau, CADW, ac a lansiwyd yn swyddogol yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu 2022, gyda chefnogaeth a phresenoldeb gan Gomisiynydd Plant Cymru.




**13,869**
Nifer o weithiau yr edrychwyd ar dudalennau ar wefan CYSUR eleni
(6.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol)

Mae tudalennau newydd wedi cael eu hychwanegu i gefnogi gwaith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n digwydd ledled y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys tudalennau sy'n tynnu sylw at raglenni newid ymddygiad newydd ac arloesol sydd ar y gweill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, manylion gwasanaethau lleol a chymorth sydd ar gael i oroeswyr cam-drin domestig, gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Panel Ymgynghorol Goroeswyr newydd ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, a manylion Cyfleusterau Rhoi Tystiolaeth yn Ddiogel Trwy Gyswllt Fideo.

Mae'r hyb adnoddau ar gyfer ymarferwyr wedi'i hestyn i gynnwys tudalennau newydd a neilltuir i bynciau allweddol fel plant coll a chwsg mwy diogel.

Mae cyfleuster chwilio newydd sbon hefyd wedi gwneud adfer gwybodaeth am ddiogelu yn llawer mwy effeithiol ac wedi ychwanegu at ddefnyddioldeb cyffredinol y wefan.




*Tudalen newydd ar wefan y Byrddau yn rhannu gwybodaeth am raglenni newid ymddygiad*

# Hyfforddiant

Fel a amlinellir yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod ymarferwyr yn eu hardal yn cael mynediad at yr hyfforddiant ac yn derbyn yr hyfforddiant y mae ei angen arnynt mewn gwaith amddiffyn plant ac oedolion. Mae Strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol amlasiantaeth y Byrddau a'r Cynllun Cyflawni sy'n cyd-fynd â hi'n parhau i ddarparu fframwaith sy'n rhoi cymorth i gomisiynu a darparu hyfforddiant amlasiantaeth pwrpasol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Bwrdd, yn ogystal â rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd ac argaeledd hyfforddiant diogelu i ymarferwyr a rheolwyr ar draws y bartneriaeth.

Mae'r Byrddau wedi'u sicrhau bod pob asiantaeth yn darparu hyfforddiant diogelu o ansawdd da i'w staff, ac mae hyn wedi parhau trwy gydol y cyfnod. Mae cyfoeth o hyfforddiant diogelu wedi cael ei ddarparu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru eleni, mewn fformatau wyneb-yn-wyneb a rhithwir fel a ganlyn.

# Pecyn Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Chwilfrydedd Proffesiynol i adolygu ac archwilio sut y gall y defnydd o "Chwilfrydedd Proffesiynol" gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu'r sgiliau cyfathrebu ac arsylwi y mae eu hangen i weithio'n fwy effeithiol gydag unigolion a theuluoedd.

Datblygwyd cyfres o Hyfforddiant ac Adnoddau Chwilfrydedd Proffesiynol o ansawdd da, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o egwyddorion sylfaenol "Chwilfrydedd Proffesiynol" a sut y gellir ei ymgorffori o fewn ymarfer i barhau i godi safonau gwaith a wneir gydag unigolion a theuluoedd gan weithwyr proffesiynol diogelu. Mae'n cynnwys tair elfen allweddol:

1. Pecyn Hyfforddiant Amlasiantaeth Pob Oed, sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer sesiwn hyfforddi diwrnod llawn a hanner diwrnod.
2. Pecyn Adnoddau y gellir ei gyrchu'n rhithwir ar unrhyw adeg gan ymarferwyr ledled y rhanbarth, gan ddarparu cyflwyniad i chwilfrydedd proffesiynol, gan gynnwys trosolwg fanwl o sut i arfer chwilfrydedd a chrebwyll proffesiynol, a ategir gan astudiaethau achos.
3. Fideo Hyfforddi lle mae'r Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal Arweiniol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn egluro beth mae'n ei olygu i fod yn chwilfrydig yn broffesiynol, a'r cwestiynau y gall ymarferwyr eu gofyn iddynt hwy eu hunain a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw i arfer chwilfrydedd proffesiynol yn eu hymarfer.

**Adborth Mynychwyr Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol:**


*"Roedd y sesiynau rhyngweithiol yn hynod ddefnyddiol gan eu bod yn rhai amlasiantaeth.*

*Roedd yr astudiaethau achos yn wych i edrych ar senarios o safbwynt amlasiantaeth"*

Mae'r gyfres hon o ddeunyddiau hyfforddi'n darparu nifer o lwybrau y gall gweithwyr proffesiynol eu dilyn i gael gafael ar wybodaeth am y pwnc hwn, sy'n parhau i fod yn amlwg mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion sy'n mynd rhagddynt ac a gwblhawyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
Roedd yr adborth a gafwyd o sesiynau hyfforddi peilot gan ddefnyddio'r adnoddau hyn yn ardderchog ac roedd consensws llethol bod y dull pob oed wedi gweithio'n dda iawn. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru bellach wedi sicrhau'r hawlfraint ar yr hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol ac mae ar gael i'w ymgorffori mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu.

Mae'r broses o ddarparu'r hyfforddiant hwn wedi cael ei chyflwyno fel a ganlyn:

- Cynigiodd Awdurdod Lleol Ceredigion ddyddiadau i gael hyfforddiant gan ddefnyddio'r sesiwn hanner diwrnod, rhwng mis Tachwedd a dechrau mis Ebrill, ac roedd niferoedd da'n bresennol. Ar hyn o bryd mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud i fireinio'r deunydd i'w gyd-destunoli. Mae bwriad i ychwanegu mwy o ddyddiadau yn ôl yr angen, ac o bosibl cynnwys hyfforddiant amlasiantaeth yn nes ymlaen.
- Cynhaliodd Awdurdod Lleol Powys ei gwrs hanner diwrnod cyntaf ym mis Rhagfyr 2022, a gyflwynwyd ar sail amlasiantaeth ac estynnwyd gwahoddiadau i gydweithwyr iechyd, yr heddlu a thai. Yna cafodd dyddiadau pellach eu cyflwyno gan gydweithwyr iechyd ym mis Ionawr 2023.
- Ar hyn o bryd mae Heddlu Dyfed-Powys yn archwilio'r potensial ar gyfer ymgorffori'r hyfforddiant yn eu Hyfforddiant Pobl Agored i Niwed presennol.
- Comisiynodd Gwasanaethau Plant Sir Benfro sesiwn bwrpasol ar chwilfrydedd proffesiynol, gyda phedair sesiwn arall wedi'u trefnu erbyn diwedd Ebrill 2023.



*Sesiwn hyfforddi rithwir ar Chwilfrydedd Proffesiynol*

- Mae Sir Gâr yn bwriadu darparu hyfforddiant mewnol. Maent wedi cyflwyno pedair sesiwn hyd yn hyn ac maent yn archwilio'r posibilrwydd o gydweithio gydag Awdurdod Lleol Sir Benfro yn y dyfodol.
- Y cynlluniau ar gyfer datblygiad pellach yw mapio'r hyfforddiant i'r cymwyseddau yn y safonau hyfforddi cenedlaethol, gan nodi grwpiau o staff i'w targedu ar gyfer gwahanol lefelau.

## Wythnos Genedlaethol Diogelu

Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu eleni rhwng 14 a 18 Tachwedd 2022, gyda'r thema "Symud ymlaen ac Adfer o'r Pandemig". O dan y pennawd eang hwn, dyluniwyd rhaglen a oedd wedi'i bwriadu i ymateb i rai o'r heriau y mae plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn eu hwynebu ar eu taith wrth adfer o bandemig COVID-19.

Trwy gydol yr wythnos cynhaliwyd chwe digwyddiad allweddol, gan gynnwys cynadleddau a gweminarau a oedd yn ceisio tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg ar hyn o bryd. Cefnogwyd y rhaglen ranbarthol gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhaliwyd ledled Cymru gyfan. Roedd hyn yn cynnwys lansio safonau hyfforddiant amlasiantaeth newydd dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru, a digwyddiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Uned Atal Trais ar lunio dyfodol diogelu yng Nghymru.






*Delweddau o lansiad "Yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu' ym mis Tachwedd 2022*

# 'Yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech ei Osgoi wrth Ofalu': Adnodd Hyfforddi

Prif ddigwyddiad yr wythnos oedd lansio a dathlu adnodd hyfforddiant diogelu ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a gynhaliwyd yn Stadiwm Parc-y-Scarlets yn Llanelli. Crëwyd yr animeiddiad fideo gan blant a phobl ifanc o'n Bwrdd Iau ac mae wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio fel rhan o hyfforddiant diogelu ar gyfer ymarferwyr. Hefyd, crëwyd 'Myfyrio ynghylch yr Hyn i'w Wneud a'r Hyn Dylech Ei Osgoi wrth Ofalu', fideo sy'n cyd-fynd â'r animeiddiad, gan gyn-aelod o'r Bwrdd Iau, a gasglodd adweithiau aelodau'r grŵp pan welsant yr adnodd am y tro cyntaf yn eu digwyddiad preswyl blynyddol.

Cyflwynwyd yr anerchiad cyweirnod gan y Comisiynydd Plant newydd, Ms Rocio Cifuentes, a gymeradwyodd y plant a'r bobl ifanc am eu gwaith rhagorol, ac a danlinellodd bwysigrwydd rhannu'r adnodd hwn yn ehangach i roi cymorth i ledaenu ei negeseuon allweddol.

Roedd adborth gan ymarferwyr yn y lansiad animeiddio yn canmol y ddau gyflawniad ac yn rhoi anogaeth i sicrhau bod yr animeiddiad a'r fideo'n cael eu defnyddio a'u gweld gyda'i gilydd i gael yr effaith fwyaf. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn y bydd ymarferwyr yn ei wneud yn wahanol ar ôl gwylio'r fideo (e.e. osgoi cymryd nodiadau, ymgorffori adnoddau mewn cyfarfodydd), sut y byddant yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu clywed mewn cyfarfodydd (e.e. cyd-gadeirio adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, cyrff disgyblion yn bod â llais) a sut y byddant yn addasu hyfforddiant i ymgorffori cynnwys y fideo a'r ffilm sy'n cyd-fynd ag ef (e.e. cynnwys mewn hyfforddiant mewn ysgolion,  cyfarfodydd staff). Ers hynny, mae'r grŵp wedi gweithio ar fersiwn gwbl ddwyieithog o'r adnodd i'w wneud hyd yn oed yn fwy hygyrch.

Gellir lawrlwytho neu gyrchu pob fersiwn o'r animeiddiad a'r fideo sy'n cyd-fynd ag ef o dudalen animeiddiad ein gwefan.



## Cynhadledd Cam-drin Domestig Heddlu Dyfed Powys

Cynhaliodd Heddlu Dyfed Powys Gynhadledd Cam-drin Domestig amlasiantaeth lwyddiannus iawn ym Mhencadlys yr Heddlu, lle'r oedd y siaradwyr yn cynnwys y rhai â phrofiad personol o gam-drin domestig. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys bwrw golwg fanylach ar gam-drin domestig a dementia, trafodaeth am bobl hŷn a cham-drin domestig ac effaith cam-drin domestig ar blant. Roedd yr adborth yn nodi bod y siaradwyr gwadd wedi cael effaith fawr, a'i bod yn gynhadledd addysgiadol iawn.

Gwnaeth pobl sylw hefyd ynghylch pa mor dda oedd bod yn ôl gyda'i gilydd wyneb yn wyneb, ac y byddant yn mynd â llawer o wersi yn ôl i'w timau.

**Cynhadledd Cam-drin Domestig Heddlu Dyfed Powys, Adborth gan un a oedd yn bresennol:**

*Roedd hon yn gynhadledd hynod addysgiadol a phwerus. Cydbwysedd gwych rhwng hyfforddiant gan wasanaethau arbenigol a chyfrifon personol gan ein siaradwyr rhyfeddol. Roedd profiadau personol goroeswyr yn teimlo fel pe baent yn gwbl ganolog i'r digwyddiad heddiw, ac yn fy ngadael yn teimlo'n gadarnhaol y bydd y profiadau hyn yn mynd ymlaen i oleuo ein hymarfer.*

*Diolch yn fawr.*



**Cynhadledd Cam-drin Domestig Heddlu Dyfed Powys, Adborth gan un a oedd yn bresennol:**

*Cwbl gampus. Y lleoliad, y siaradwyr – y cynnwys a sut y cafodd ei gyflwyno.*

*Yn bwerus ac ysgogol iawn.*

*Diolch yn fawr.*




## Seminarau byw Microsoft Teams

Cynhaliwyd cyfres o Seminarau Byw Microsoft Teams llwyddiannus trwy gydol yr wythnos ddiogelu, y rhoddwyd adborth ardderchog arnynt ac a oedd â nifer dda'n bresennol ynddynt. Crëwyd tudalennau gwe wedi'u neilltuo hefyd i rannu cyflwyniadau'r siaradwyr, fideos a delweddau o'r digwyddiadau, yn ogystal ag adnoddau hyfforddi i'w defnyddio yn ystod ac ar ôl y sesiynau. Roedd y Seminarau Byw Microsoft Teams fel a ganlyn:

**Diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maetl Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid Arbennig: Dysgu o Adolygiadau Achosion 2007-2019**. A hithau wedi'i hwyluso gan yr Athro Hedy Cleaver a Wendy Rose OBE, roedd y weminar yn ceisio lledaenu'r themâu a'r negeseuon allweddol o gyhoeddiad Corum BAFF, yn seiliedig ar astudiaeth ledled y DU o 52 o adolygiadau achosion a oedd yn ymwneud â 98 o blant a oedd wedi profi niwed difrifol wrth fyw gyda gofalwyr maeth, mabwysiadwyr neu warcheidwaid arbennig.

*Adborth o'r digwyddiad rhithwir 'Dysgu o Adolygiadau Achosion 2007-2019' dan arweiniad yr Athro Hedy Cleaver, a Wendy Rose OBE*

"Thank you Wendy and Hedy! Very informative and insightful!"

"Thank you for this morning. It's been very interesting and given me lots to consider!"

"Relevant, excellent and thought provoking, thank you!"

**Ymgyrch Jasmine**. Roedd y weminar ranbarthol hon, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn cynnig trosolwg o'r themâu a'r negeseuon allweddol a gododd o "In Search Of Accountability: a review of the neglect of older people living in care homes", adolygiad o ymchwiliad a adwaenid fel Ymgyrch Jasmine. Ei hwyluswyr allweddol oedd Margaret Flynn, a gafodd gomisiwn gan y Prif Weinidog i adolygu'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig ag Ymgyrch Jasmine a Margaret Rooney, Dirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

**Digwyddiad Ymgyrch Jasmine, Adborth un a oedd yn bresennol:**

*Roedd yn taflu llawer o oleuni, yn procio'r meddwl ac yn rymusol. Roedd yn enghraifft wych o'r hyn y dylai ymarferwyr fod yn edrych amdano ac i hybu chwilfrydedd proffesiynol. Da iawn a diolch. Byddaf yn defnyddio'r canlyniadau yn fy sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.*

Fe wnaeth panel a oedd yn cynnig safbwynt gwasanaethau iechyd lleol a mewnbwn gan aelod o'r teulu yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt gan y digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig ag Ymgyrch Jasmine roi cymorth i gyflwyno'r weminar hefyd. Roedd 88 o gyfranogwyr o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol yn y weminar. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn a nododd y rhai a oedd yn bresennol y byddant yn ei wneud yn wahanol yn awr yng ngoleuni'r negeseuon a rannwyd:

*"Adolygu pryd yr ydym yn trafod pryderon cyffredinol mewn cartrefi gofal gyda theuluoedd. Sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau"*

*"Mae diogelu eisoes yn eitem sefydlog ar agenda pob un o'n cyfarfodydd ond byddwn yn cyfeirio'n benodol at faterion sy'n ymwneud ag ymarfer mewn cartrefi gofal o fewn hynny yn awr"*

*"Herio pan fydd diogelu'n canolbwyntio'n ormodol ar y broses i atgoffa am yr unigolyn yn y canol"*

Roedd cyflwyniadau, cyfweliad wedi'i recordio gydag aelod o'r teulu a chopi o'r adroddiad llawn ar gael i gyfranogwyr ar dudalen we wedi'i neilltuo ar ôl y sesiwn.

**Ystyriwch y Teulu — Gan Weld yr Oedolyn a Gweld y Plentyn**. Tynnodd y weminar hon ar wersi o adolygiadau diogelu oedolion ac adolygiadau achosion difrifol (adolygiadau ymarfer diogelu plant erbyn hyn) yn Lloegr, ac Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru. Roedd yn ceisio nodi pam fod yn rhaid i ymarferwyr a rheolwyr bob amser "ystyried y teulu" a gweld yr oedolyn a'r plentyn. Gan dynnu sylw at elfennau craidd y dull ymarfer hwn, rhoddodd gyfle i gyfranogwyr drafod beth sy'n eu galluogi a beth sy'n rhwystr i "ystyried y teulu" yn eu profiad gwaith.


Mae'r hwylusydd, Michael Preston-Shoot, yn Athro (Emeritws) Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Swydd Bedford, Lloegr. Mae Michael hefyd yn Gadeirydd Annibynnol Byrddau Diogelu Oedolion Lewisham a Brent, ac mae wedi gwneud ymchwil thematig ehangach i archwilio patrymau a thueddiadau mewn ymarfer diogelu. Profodd y weminar yn boblogaidd iawn ac roedd 131 o gyfranogwyr o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol. Pan ofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol roi sgôr i ddynodi i ba raddau y byddai cynnwys y cwrs yn dylanwadu ar eu hymarfer yn y dyfodol, rhoddwyd sgôr gyfartalog o 85%.

**Hybu Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol Plant a Phobl Ifanc ers Pandemig COVID-19**, mewn cydweithrediad â Thîm Mewngymorth Ysgolion CAMHS.

Nod y weminar hon oedd archwilio sut y gallai rhagofalon a rheoliadau pandemig COVID-19 fod wedi effeithio ar blant a phobl ifanc, gyda phwyslais ar eu twf a'u datblygiad emosiynol. Roedd wedi'i bwriadu i rannu strategaethau i hybu iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol, ac i rannu manylion ymarfer cenedlaethol i gyflwyno'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion.

Traddodwyd y cyflwyniad hwn gan Wasanaeth Mewngymorth Ysgolion CAMHS Powys ond roedd y cynnwys a'r strategaethau damcaniaethol yn berthnasol i bob rhan o Gymru. Hwyluswyd y digwyddiad gan Gail Morris a Stephen Lloyd o Dîm Mewngymorth Ysgolion CAMHS Powys.

Cyflwynwyd y digwyddiad hwn fel sesiwn ar ôl ysgol.
Roedd 93 o gynrychiolwyr yn bresennol o dri chyngor sir fel a ganlyn:








Trwy gydol yr wythnos, gwahoddwyd cynrychiolwyr i ddilyn ac ymuno â ni ar y cyfryngau cymdeithasol - Twitter @CYSURCymru a @CWMPASCymru, Facebook @CYSURCymru ac Instagram @cysurcymru.

Roedd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer parhau â'r sgyrsiau, lledaenu gwersi, a chynnig dolenni a gwybodaeth ychwanegol. Cafwyd bron i 5.5k o argraffiadau ar Twitter, Facebook ac Instagram trwy gydol y cyfnod.

**Digwyddiadau NSW 2022 a'u Heffaith ar Ymarfer**




*Sgorau cyfartalog a roddwyd gan y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau mewn ymateb i'r cwestiwn, "I ba raddau y bydd yr hyn rydych wedi'i ddysgu yn dylanwadu ar eich ymarfer ac yn helpu i gadw defnyddwyr gwasanaethau sy'n wynebu risg yn ddiogel?" ar raddfa o 1 i 10, fesul digwyddiad a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu.*

## Hyfforddiant Salwch wedi'i Ffugio neu ei Ysgogi gan Eraill

Cynhaliwyd gweminar fyw ar Microsoft Teams ym mis Medi a oedd yn ceisio cyflwyno'r syniadau cyfredol i gynrychiolwyr am 'Salwch wedi'i Ffugio neu ei Ysgogi gan Eraill' a 'Chyflwyniadau Dyrys'. Arweiniwyd y cyflwyniad hwn gan Dr Didi Ratnasinghe, Paediatregydd Ymgynghorol a Meddyg Penodol ar gyfer Diogelu Plant yn BIP Hywel Dda. Mae gan Dr Didi brofiad helaeth o weithio gyda Salwch wedi'i Ffugio neu ei Ysgogi gan Eraill a'i reoli.

Roedd y sesiwn wedi'i hanelu at ymarferwyr rheng-flaen a rheolwyr amlasiantaeth, gan gyflawni'r deilliannau dysgu penodol ar gyfer grŵp staff D yn Strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol Pob Oed Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y cyflwyniad yn sesiwn ddefnyddiol iawn a oedd yn tynnu sylw at y dadleuon am wahanol ddulliau o ymdrin â Salwch wedi'i Ffurfio neu Ei Ysgogi gan Eraill fel a bwysleisir gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW). Rhoddwyd cyfle i'r cynrychiolwyr drafod astudiaethau achos yn dangos y sbectrwm eang o amlygiadau ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan yn rhyngweithiol trwy holi ac ateb a herio materion dadleuol.

## Prosiectau Hyfforddiant Parhaus

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol a'r ddau Fwrdd Iechyd, yn parhau i gwrdd a goruchwylio'r Cynllun Hyfforddiant Rhanbarthol i ddarparu Grwpiau 1-3 a 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae'r rhanbarth wedi ymrwymo i gynllun cyflawni ar y cyd a fframwaith ar gyfer adrodd yn uniongyrchol wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer goruchwyliaeth genedlaethol. Mae llywodraethu canolog ar draws y ddarpariaeth yn sicrhau cysondeb ac yn cael ei ategu gan drefniant darparu ar y cyd gyda'n darparwyr arbenigol a gomisiynwyd. Mae'r trefniant darparu ar y cyd hwn yn cael ei gydlynu a'i ariannu'n ganolog trwy Grant Cymhorthdal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Rydym hefyd yn cefnogi cysondeb gydag arferion ac adnoddau a rennir a phecynnau hyfforddi rhanbarthol ar draws Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a'r Gwasanaeth Tân.

Mae'r datblygiadau o ran darparu wedi cynnwys ffocws ar fodelau darparu arloesol i gyrraedd staff yn y gwasanaeth Addysg. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar gydweithwyr Iechyd a darparu sesiynau gyda darparwyr arbenigol ar feysydd ymarfer i gefnogi canlyniadau Gofyn a Gweithredu. Eleni hefyd fe fuddsoddwyd mewn technoleg a datblygu adnoddau hyfforddi realiti rhithwir sydd wedi cael eu treialu ar draws partneriaid rhanbarthol. Rydym wedi gwneud a chefnogi buddsoddiad sylweddol i ateb gofynion grwpiau 4 a 5 o fewn y darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr arbenigol ar draws y rhanbarth. Roedd hyn ar y cyd â hyfforddiant arbenigol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys darparu hyfforddiant Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA), Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a hyfforddiant cyfryngu yn rhanbarthol.

Rydym hefyd wedi ariannu hyfforddiant rhanbarthol, amlasiantaeth ar Wrthsefyll Di-Drais, Cam-drin Rhieni gan Blant a hyfforddiant penodol ar stelcian gan yr Athro Jane Monckton-Smith. Roedd ceisiadau cyllid rhanbarthol hefyd yn llwyddiannus i gefnogi buddsoddiad mewn hyfforddiant ar draws Heddlu Dyfed-Powys ar stelcian, asesu risg a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (cadeirio MARAC).

# Hyfforddiant gan Asiantaethau Eraill

Cyflwynodd **Awdurdod Lleol Sir Gâr** hyfforddiant ar Weithdrefnau Diogelu Cymru, Ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ymwybyddiaeth o Channel, Ymddygiad Risg-Uchel, Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Fe wnaethant hefyd nodi nifer o flaenoriaethau allweddol o ran hyfforddiant diogelu yn y dyfodol sy'n cynnwys Chwilfrydedd Proffesiynol, Gofyn a Gweithredu a mwy o hyfforddiant Prevent/Channel. Mae ganddynt gynlluniau i adolygu Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gâr ac i ystyried hyfforddiant i reolwyr ynghylch pryderon proffesiynol a chod ymddygiad.

Cyflwynodd **Awdurdod Lleol Ceredigion** raglen helaeth yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol, a ddarparwyd i'r holl staff ar draws y Model Llesiant Pob Oed, ac a gynigiwyd i asiantaethau partner. Cynhaliodd y Cyfarwyddwr Statudol weithdai ar Rianta Corfforaethol a chyflwynodd hyfforddiant Diogelu Corfforaethol i Aelodau Etholedig. Hwylusodd Ymarferwyr Arweiniol Diogelu (plant ac oedolion) sesiynau hyfforddiant gwybodaeth ar gyfer holl aelodau etholedig newydd y cyngor. Cafodd Aelodau Etholedig hyfforddiant hefyd ynghylch PREVENT a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Darparwyd cryn dipyn o hyfforddiant mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac Ymarfer sy'n Deall Trawma, gyda sesiynau pwrpasol yn cael eu cynnig i'w Gofalwyr Maeth mewnol. Cynigiwyd hyfforddiant hefyd mewn perthynas ag awtistiaeth, gan ganolbwyntio ar brofiad personol pobl sydd ag awtistiaeth.

Roedd hyfforddiant diogelu allweddol a gyflwynwyd i staff yng **Nghyngor Sir Penfro** yn cynnwys Deall Ymarfer sy'n Deall Trawma, Gofyn a Gweithredu, a deddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Darparwyd Gweithdai Protocol Gweithio ar y Cyd ar gyfer Diogelu a Chamddefnyddio Sylweddau i fynd i'r afael ag anghenion plant ac oedolion yn annibynnol. Cyflwynwyd dwy fersiwn o hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol, un fersiwn pob oed ac un yn benodol i staff sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Plant. Yn chwarterol, cynhaliwyd cyrsiau ar gyfer Diogelu Plant o dan themâu Rheoli Honiadau yn erbyn Oedolion, Prosesau a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Iechyd Meddwl ac Atal Hunanladdiad. Bu staff hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael i holl staff Cyngor Sir Penfro.

Yn **Awdurdod Lleol Powys** darparwyd hyfforddiant mewn Diogelu Oedolion a Gweithdrefnau Cymru Gyfan – PAVO, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Celcio, a Hunan-esgeuluso. Parhaodd hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau "Yr hyn sy'n bwysig" trwy gydol y cyfnod hefyd. O fewn timau diogelu plant, darparwyd hyfforddiant Adran 47 yn rhithwir i gynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol rheng-flaen i ddatblygu eu sgiliau mewn perthynas â diogelu mewn gofal cymdeithasol i gael dealltwriaeth am effaith newidiadau i ddeddfwriaeth. Darparwyd hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar bedwar achlysur, gyda phob un yn cael adborth cadarnhaol iawn. Mae pedwar dyddiad pellach wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cafodd ymarfer Hydra ar y cyd ei gynnal hefyd gan staff Heddlu Dyfed Powys a Phowys.

Parhaodd tîm diogelu **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** i ychwanegu at eu hyfforddiant diogelu a thrwy gydol y flwyddyn, fe wnaethant ddarparu hyfforddiant mewn Diogelu Plant Lefel 3, Diogelu Oedolion Lefel 3, Gofyn a Gweithredu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a nifer o sesiynau ar gam-drin domestig. Mae ganddynt gynlluniau ar gyfer y flwyddyn

sydd i ddod i ddiweddaru'r fframwaith cymhwysedd hyfforddiant Lefel 3 ac i adolygu a diweddaru eu systemau o ran hyfforddiant.

Darparodd **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)** ystod o hyfforddiant pwrpasol gan gynnwys sesiynau ar gyflwyno adroddiadau digidol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Byw Heb Ofn, ac i'r Gwasanaeth Tân Rhanbarthol ar gyfer pryderon ynghylch diogelwch tân a chelcio, a gwneud adroddiad trwy broses ddigidol WAST. Maent hefyd wedi cynnig hyfforddiant Diogelu Plant a Diogelu Oedolion a Grŵp 1 a 2 Gofyn a Gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y **Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid** i ddilyn yr un rhaglen hyfforddi â chydweithwyr eraill yr awdurdodau lleol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Roedd hyfforddiant ychwanegol penodol yn cynnwys hyfforddiant AIM i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol, hyfforddiant asesu sector-benodol ar ddefnyddio ASSET Plus, Cyfweld Ysgogol a dulliau eraill o newid ymddygiad.

Fe wnaeth **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** barhau i ddarparu ystod eang o hyfforddiant diogelu hefyd. Cyflwynodd y Meddyg Penodol hyfforddiant Lefel 3 mewn Adnabyddiaeth Glinigol o Gam-drin ac Esgeuluso (Diogelu Plant) a chynigiwyd hyn i staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu. Comisiynwyd Hyfforddiant Lucy Faithfull yn ystod y cyfnod a pharhaodd y Nyrs Arweiniol Diogelu Plant a'r Meddyg Penodol i ddarparu hyfforddiant PRUDiC. Darparodd y tîm diogelu oedolion nifer o gyflwyniadau defnyddiol, y cyntaf yn Niwrnod Ymwybyddiaeth o Ddementia'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar Ddiogelu a Dementia, a'r ail mewn sesiwn cinio a dysgu yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu ar Ddiogelu a'r person hŷn. Cafodd hyfforddiant ei gyflwyno i Benaethiaid Gwasanaethau Oedolion ac arweinwyr gwasanaethau ar ddefnyddio'r Swyddogaeth Rheoli Diogelu gyda'r system reoli Unwaith i Gymru, gan gynnwys datblygu dogfennau/fideos cymorth electronig.


Mewn **Addysg Bellach**, parhawyd i ddarparu hyfforddiant sefydlu a diweddaru ar ddiogelu i staff. Parhaodd y Colegau yn rhanbarth y Bwrdd Diogelu i gomisiynu Dai Durbridge, cyfreithiwr diogelu blaenllaw, i ddarparu hyfforddiant i staff y coleg sy'n cwmpasu'r hyn a ddysgwyd o CYSUR 7 2018 a oedd yn ymwneud â cham-drin rhwng cyfoedion.


Yn ystod y cyfnod, gweithredodd **Heddlu Dyfed Powys** hyfforddiant diogelu ar y cyd gyda'r Awdurdod Lleol i wella cydweithio mewn ymateb i blant ac oedolion agored i niwed. Cyflwynwyd sesiynau cinio a dysgu i wella dealltwriaeth amlasiantaeth am gam-drin domestig. Sefydlodd yr heddlu hefyd raglen hyfforddiant trochi ar gyfer Uwch Swyddogion Gwybodaeth sy'n ymdrin â Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol, a darparodd wybodaeth a sgriptiau i staff rheng flaen i sicrhau ymateb effeithiol i fasnachu pobl.




# Rhydig o luniau ar y cyd o Wythnos Genedlaethol Diogelu 2022:



















# (m) Sut y mae'r Byrddau diogelu wedi gweithredu cyngor gan lywodraeth cymru a'r bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol

Mae Cadeiryddion CYSUR a CWMPAS a Rheolwr a thîm y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr a lle nodir y gellir gwneud gwelliannau i ymarfer diogelu proffesiynol. Mae eleni wedi canolbwyntio ar weithredu cyngor sy'n gysylltiedig ag Argyfwng Wcráin a gwaith parhaus ar ôl y pandemig. Mae'r Byrddau wedi cefnogi ceisiadau gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag ail adolygiad thematig a gynhaliwyd mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae'r Byrddau wedi parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol, er bod hwn bellach wedi cael ei gau'n ffurfiol. Rhoddwyd cymorth sylweddol i'r gwaith cenedlaethol parhaus dan arweiniad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith perfformiad ar gyfer ymarfer diogelu yng Nghymru.

Eleni, mae'r Byrddau wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad parhaus y fframwaith Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Cynrychiolir ein Byrddau ar nifer o is-grwpiau sydd â'r dasg o ddatblygu agweddau niferus ar y prosiect, ac maent yn arwain ar y fframwaith hyfforddi a datblygu cenedlaethol, a fydd yn rhoi cymorth i gyflwyno SUSR ar ôl cyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Byrddau yn aros am y cyhoeddiad hwn, ar ôl cyfrannu at yr ymgynghoriad cenedlaethol mewn perthynas â'r canllawiau statudol drafft, a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023. Mae'r Byrddau yn parhau i chwarae rhan weithredol ym mhob agwedd ar y prosiect hwn, gyda'r bwriad o sicrhau y bydd yr arfer da a sefydlwyd mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn parhau i mewn i'r fframwaith newydd ar ôl ei weithredu.



# Geirfa

- **AYO/AYP (APR / CPR)** - Adolygiad Ymarfer Oedolion / Adolygiad Ymarfer Plant
- **FfPA (MAPF)** - Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
- **VAWDASV** - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- **MACSE / CRhB (CSE)** - Camfanteisio Rhywiol ar Blant Aml-Asiantaeth / Camfanteisio Rhywiol ar Blant
- **GGLl** - Grŵp Gweithredol Lleol
- **WDG (NSGW)** - Wythnos Diogelu Genedlaethol
- **ERW** - Addysg trwy Weithio Rhanbarthol
- **ADdG (EHE)** - Addysg Ddewisol Gartref
- **BDAC (NISB)** - Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- **ADRh (DoLS)** - Amddiffynfeydd Diogelu Rhyddid
- **AGC (CIW)** – Arolygiaeth Gofal Cymru
- **IICSA** - Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- **PRUDiC** - Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentyndod
- **ACEs** - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- **BIAP (PTHB)** - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- **PPPI (CYPP)** - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- **CAMHS** - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- **MARAC** - Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol
- **MAPPA** - Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
- **ICC (PHW)** - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **TDC (NST)** - Tîm Diogelu Cenedlaethol
- **YGAC (WAST)** - Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- **HDP** - Heddlu Dyfed-Powys
- **GCI** - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- **GPC** - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- **CAC (CRC)** - Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- **AD (SoS)** - Arwyddion Diogelwch
- **ABCh** - Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- **CCAC (ADEW)** - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
- **LHDTC+ (LGBTQ+)** - Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwestiynu a Mwy
- **GDG (DBS)** - Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- **FfAA (MARF)** - Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol
- **ADD (DHR)** - Adolygiad Dynladdiad Domestig
- **CD (DA)** - Cam-drin Domestig
- **SARC** - Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- **BAME** - Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- **CSPPI** - Digwyddiadau Diogelu Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd
- **BCI (YJB)** - Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- **CCUHP (UNCRC)** - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- **CSA / CSE** - Cam-drin / Camfanteisio Rhywiol ar Blant
- **CCE** - Camfanteisio Troseddol ar Blant
- **IRISi** - Menter gymdeithasol a sefydlwyd i hyrwyddo a gwella'r ymateb gofal iechyd i drais ar sail rhywedd.
- **UDD (DSP)** - Unigolyn Diogelu Dynodedig




# BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL

*Cynhyrchwyd gan y Bwrdd Diogelu Canolbarth A Gorllewin Cymru*

**Julie Breckon**
*Rheolwr Diogelu Strategol Rhanbarthol*

**Rebecca Reynolds**
*Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer*

**Stuart Hicks**
*Cydlynydd Busnes*

**Theresa Welch**
*Swyddog Datblygu Busnes*

CYSUR@pembrokeshire.gov.uk

CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk

**www.cysur.cymru**

DESIGN YO! CREATIVE DESIGN & PRINT
DY01103